

PENSIYNAU

ADRODDIAD BLYNYDDOL

O FESEN DERWEN A DYF



2019

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	1
---------------------------	---

Cyflwyniad	3
------------------	---

Crynodeb	4
----------------	---

Cyflogwyr sy'n Cymryd Rhan	
Cyfranwyr	
Aelodau o Bwyllgor y Gronfa Bensiwn	
Aelodau o Banel Cyngori'r Gronfa Bensiwn	
Aelodau o Fwrdd y Gronfa Bensiwn	

Adroddiad Materion Gweinyddu	9
------------------------------------	---

Cyflwyniad	
Prisiad Actiwaraid	
Llywodraethu	
Diogelwch Seibr	
Pensiwn CThEM - Newidiadau Treth	
Awto-gofrestru	
Cysoni Isafswm Gwarantedig Pensiynau	
Rhyddid i Ddewi / Sgamiau Trosglwyddo	
Atal a Chanfod Twyll	
Edrych Tuag at y Dyfodol	
Gwybodaeth am Gyflwyniad	
Nifer yr Aelodau	
Dadansoddiad o'r Aelodaeth	



Adroddiad ar Faterion Buddsoddi	17
---------------------------------------	----

Cyflwyniad	
Rheoli Buddsoddi	
Cyflwyniad Buddsoddiadau	
Cyflwyniad Rheolwyr y Gronfa	
Manylion Rheolwyr y Gronfa	
Elw a Chollidion ar Fuddsoddiadau	
Trefnau Gwarchod	
Ffioedd Rheolwyr a Chynghorwyr y Gronfa	
Dadansoddiad o'r Buddsoddiadau ar sail Gwerth Teg	
Dosbarthiad Daearyddol y Gronfa	
Dadansoddiad o'r Incwm Buddsoddi	
Dadansoddiad a Asedau'r Gronfa	
Y Daliadau Mwyaf	
Datganiad y Strategaeth Fuddsoddi	
Datganiad Cydymffurfio ag Egwyddorion Myners	

Adroddiad ar y Cyfrifon	31
-------------------------------	----

Cyfrif y Gronfa	
Datganiad Asedau Net	
Nodiadau ar Gyfrifon y Gronfa Bensiwn	
Cyfraniadau	
Barn yr Archwilydd	

Adroddiad yr Actiwari	41
-----------------------------	----

Cyflwyniad	
Sefyllfa Actiwaraid	

Adroddiad ar Faterion Cyfathrebu	45
--	----

Cyfarfodydd Blynyddol	
Desg Gymorth	
Gwefan	
Cyflwyniadau	
Datganiadau Buddion Blynyddol	
Trefnau Cyfathrebu Electronig	
CPLIL 2014	
Cynydd yng Nghostau Byw	

Llywodraethu'r Gronfa Bensiwn	47
-------------------------------------	----

Bwrdd Pensiynau Lleol	
Newyddion Diweddaraf gan y Cadeirydd	
Strwythur Llywodraethu	
Presenoldeb y Panel Pensiynau	
Gwybodaeth a Sgiliau	
Risg	

Partneriaid	55
-------------------	----

Manylion Cyswllt y Cyfranwyr	56
------------------------------------	----



Rhagair y Cadeirydd



Mae'n bleser gennyf, a minnau'n Gadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiwn RhCT, i gyflwyno Adroddiad y Gronfa Bensiwn eleni.

Mae'n destun gofid mawr i mi yn gyntaf sôn am farwolaeth drist y Cyngorydd Robert Smith, cyd-gyngorydd uchel ei barch a oedd yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Byddai Robert bob amser yn gwneud cyfraniad cadarnhaol yn ei swyddogaeth fel Dirprwy Gadeirydd Pwyllgor y Gronfa ochr yn ochr â'i swyddogaeth ehangach yn aelod etholedig uchel ei barch o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Hoffwn i ddiolch i'r holl Aelodau Etholedig sydd wedi gwasanaethau yn rhan o'r pwyllgor yn ystod y flwyddyn ac hefyd i Fwrdd y Gronfa Bensiwn sy'n parhau i helpu a chefnogi'r Gronfa i gyflawni ei gyfrifoldebau o ran llywodraethu a chydymffurfio yn effeithiol.

Mae Cronfa RhCT wedi cyflawni'n dda unwaith eto eleni, gan elwa ar gyflawniad marchnad cadarn. Canlyniad hyn oedd sicrhau safle yn y chwarter uchaf. Cynyddodd cyfanswm gwerth y Gronfa dros y flwyddyn o £3.2 biliwn i £3.4 biliwn ar 31 Mawrth 2019. Rydyn ni wedi parhau i ailalinio asedau yn unol â'n strategaeth dyrannu asedau ddiweddaraf, gan ail-gydbwysu risg/enillion pan oedd y cyfle mwyaf priodol yn codi.

Mae cydweithrediad Partneriaeth Pensiwn Cymru yn parhau i wneud cynnydd da yn erbyn cerrig milltir allweddol. Cefais y fraint o gael fy mhenodi'n Gadeirydd Cyd-bwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer y flwyddyn 2018/19. Yn ystod y flwyddyn hefyd cyrhaeddwyd carreg filltir allweddol, gyda'r trosglwyddiad cychwynnol o asedau i'r gronfa ar ffurf Soddgyfrannau Alpha Uchel Byd-eang.

Mae nifer y pensiynwyr a dibynyddion yn y Gronfa wedi cynyddu eto; mae dros 19,700 o aelodau/ddibynyddion sydd erbyn hyn yn elwa ar y cynllun gwerthfawr yma, gyda chyfanswm o werth £128 miliwn o fuddion pensiwn yn cael eu talu yn ystod y flwyddyn.

Rwy'n falch o roi gwybod am gefnogaeth barhaus y Gronfa i'r cynllun prentisiaeth, ar ôl sicrhau cyflogaeth barhaol ar gyfer derbyniad 2017/18, gyda dau brentis arall wedi'u penodi yn ystod 2019. Bydd yr ymrwymiad parhaus i ddatblygu carfan y Gronfa Bensiwn a buddsoddi mewn technolegau newydd yn helpu i sicrhau bydd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu ar gyfer aelodau ein cynllun yn goroesi unrhyw newidiadau yn y dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn, cymerodd fforymau llywodraethu'r Gronfa ran mewn ymgynghoriad ffurfiol a gwaith Bwrdd Cyngori'r Cynllun, gan gynnwys y prosiect 'Llywodraethu da' diweddar.

I gloi, bu'n flwyddyn hynod gadarnhaol o dwf mewn buddsoddiad gan arwain at Brisiad 2019, gyda phroffil aelodaeth sylweddol yn helpu i sicrhau parhad y cynllun yma.





Cyflwyniad



Rwy'n falch o ddweud ein bod ni wedi cael blwyddyn lwyddiannus arall mewn perthynas â chyflwyniad buddsoddiadau'r Gronfa, er gwaetha'r sefyllfa wleidyddol changach a'r ansicrwydd sy'n dylanwadu ar farchnadoedd byd-eang, gan gynnwys dwysâd rhyfel masnach posibl. Llwyddodd y Gronfa i gyflawni enillion cadarnhaol iawn o 8.8% yn 2018/19, diolch yn bennaf i enillion soddgyfrannau rhagorol. Cynhaliodd Cronfa Rhondda Cynon Taf ei safle o fewn y chwarter uchaf o gronfeydd pensiwn awdurdodau lleol dros y 5 mlynedd ddiwethaf. Roedd gwerth y Gronfa dros £3.4 biliwn ar 31 Mawrth 2019.

Mae'r cynnydd mawr yma wedi cyfrannu at gynydd yn ein lefel ariannu amcangyfrifedig, sef 98% ar 31 Mawrth 2019. Fel y cafodd ei grybwyll y llynedd, yn dilyn adolygiad o'n strategaeth dyrannu asedau ac wrth ystyried ein lefel ariannu well ar y pryd, daeth y Pwyllgor Pensiynau i'r casgliad y dylen ni amrywiaethu'r risg buddsoddi yn y gronfa ymhellach. Dechreuodd y cynllun graddol i ailunio dyraniad ein hasedau yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19, a bydd hyn yn parhau i newid wrth i gyfleoedd addas gael eu nodi.

Mae'r Gronfa Bensiwn hefyd yn cydnabod bod rheoli newid yn yr hinsawdd ac allyriadau carbon yn un o'r ffactorau risg ar gyfer buddsoddiadau ein cronfa pensiwn a'i bwriad yw sicrhau trosglwyddiad carbon trefnus. Bydd hi'n gweithio gyda'i rheolwyr cronfa a chwmnïau buddsoddi i gyflawni'r diben hwnnw, gan sicrhau bod modelau busnes y cwmni wedi'u halinio â dyfodol cynaliadwy. Yn hyn o beth, mae rheoli buddsoddiad gweithredol yn gynhenid anghynhwysol ac mae'r Gronfa'n mynnu bod ei holl reolwyr buddsoddi yn ystyried risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn briodol yn ogystal â risgiau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu eraill wrth wneud penderfyniadau o fewn eu portffolios priodol.

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn parhau i esblygu, ac erbyn diwedd y flwyddyn ariannol roedd ganddi asedau gwerth £3.9 biliwn yn y 2 Is-Gronfa Soddgyfrannau Alpha Uchel Byd-eang. Mae cyfnodau pellach o drosglwyddo asedau mewn perthynas â Soddgyfrannau a Llog Sefydlog y DU ac Ewrop bellach yn cael eu datblygu ar gyfer 2019/20.

Mae fframweithiau a threfniadau llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru yn parhau i ddatblygu gyda Strategaeth Buddsoddi Cyfrifol bellach ar waith ac wedi'i chymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu. Mae'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu hefyd wedi gweithio ar ddiffinio ei Strategaeth Credoau a Chyfathrebu ac erbyn hyn mae ganddo wefan bwrsasol ar waith.

Mae prisiaid actiwaraidd nesaf y Gronfa ar 31 Mawrth 2019 ar y gweill ac mae'r gwaith bron â'i gwblhau (ar adeg ysgrifennu). Rydyn ni wedi ymgymryd ag adolygiadau cyfamed lle bo angen ac wedi cytuno ar y rhagdybiaethau actiwaraidd sylfaenol. Bydd cyflogwyr yn cael eu hysbysu cyn gynted â phosibl o'r canlyniadau sy'n dod i'r amlwg a'r goblygiadau cyfradd cyfrannu (yn effeithiol o 1 Ebrill 2020) er mwyn helpu i gefnogi eu prosesau pennu cyllideb priodol.

Mae'r Llywodraeth a Bwrdd Cynghori'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi oedi eu prosesau 'cap cost' priodol ar gyfer y cynllun, oherwydd achos Llys Apêl (McCloud). Mae amcangyfrif o'r effaith ar rwymedigaethau'r Gronfa wedi cael ei gynnwys ym Mhrisiad 2019 er ei bod hi'n debygol y bydd hi'n cymryd tipyn o amser i ddod i gasgliad o ran y rhwymedi gwirioneddol.

Roedd hi'n braf nodi'r sylwadau cadarnhaol a wnaed gan gynrychiolydd y Rheoleiddiwr Pensiynau yng Nghyfarfod Cyffredinol Blyneddol y Gronfa y llynedd. Mae'r Gronfa yn cymryd ei chyfrifoldebau o ran llywodraethu corfforaethol ac ansawdd data o ddifrif, yn archwilio cyfleoedd i wella yn barhaus ac mae ganddi drefniadau monitro a rheoli risg ffurfiol ar waith. Yn ddiweddar, mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau wedi cyhoeddi ei ganfyddiadau yn dilyn adolygiad o 10 cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac yn cymharu ei gydymffurfiaeth â'r argymhellion 'arfer da' sy'n cael eu cynnwys ynddyn nhw.

Cronfa Bensiwn RhCT yw'r Gronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol fwyaf sy'n gweithredu yng Nghymru. Mae ganddi dros 73,000 o aelodau, ar draws ystod amrywiol o Gyflogwyr. Mae Fforwm Cyfathrebu'r Gronfa sy'n cynnwys cynrychiolwyr Cyflogwyr ac Undebau Llafur, yn parhau i alluogi ymgysylltiad gweithredol â grwpiau o randdeiliaid i helpu i gyflawni a llunio gwelliannau. Enghraifft o hyn yw'r cymorth sy'n cael ei roi i hyrwyddo manteision hunan-wasanaeth i aelodau ar draws aelodaeth ein cynllun.

Hyderaf bydd yr wybodaeth sydd yn yr adroddiad yma o gymorth ichi, ond os ydych chi o'r farn bod modd gwella ar yr adroddiad a'i gynnwys, bydden ni'n croesawu eich sylwadau.

Crynodeb

Cyflogwyr sy'n cymryd rhan

Awdurdod Gweinyddu

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Cyrff Derbyniedig

Agored Cymru

Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen

Capita Glamorgan Consultancy

Cymdeithas Gyrfa Cymru

Gyrfa Cymru - Mid Glamorgan and Powys Limited

DBW FM Ltd (Finance Wales Investment Ltd gynt)

Development Bank of Wales Plc
(Finance Wales Plc gynt)

Drive Ltd

Halo Leisure

KGB Cleaning Ltd

Uned Ddata Llywodraeth Leol

Sefydliad i'r Deillion Merthyr Tudful

Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful

Cartrefi Cymoedd Merthyr

Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyngor Gofal Cymru gynt)

Trivallis

Tai Cymoedd i'r Arfordir

Llywodraeth Cymru
(Asiantaeth Datblygu Cymru gynt)

Cyd-bwyllgor Addysg Cymru

Cyrff Cofrestredig a Dynodedig

Amgen Cymru

Cyngor Cymuned Bedlinog

Cyngor Cymuned Bracla

Coleg Pen-y-bont ar Ogwr

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr
(dim aelodau gweithredol ar hyn o bryd)

Consortiwm Canolbarth y De

Prif Gwnstabl De Cymru

Coleg Y Cymoedd

Cyngor Cymuned Coety Uchaf

Cyd-bwyllgor Amlosgfa Llangrallo

Cyngor Cymuned Cwm Garw

Cyngor Cymuned Gelligaer

Cyngor Cymuned Hirwaun a Phenderyn

Cyngor Cymuned Llanbradach
(dim aelodau gweithredol ar hyn o bryd)

Cyngor Cymuned Llanharan

Cyngor Cymuned Llanhari
(dim aelodau gweithredol ar hyn o bryd)

Cyngor Cymuned Llantrisant

Cyngor Cymuned Llanilltud Faerdref

Cyd-bwyllgor Amlosgfa Llwydcoed

Cyngor Tref Maes-teg

Coleg Merthyr Tudful

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru

Cyngor Cymuned Pont-y-clun

Cyngor Tref Pontypridd

Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

Awdurdod Tân De Cymru

Tribiwnlys Prisio De Cymru

Cyngor Cymuned Llansanffraid ar Ogwr

Cyngor Cymuned Tonyrefail

Prifysgol De Cymru

Cyngor Cymuned Ynysawdre

Diffiniadau'r Cyrff

Cyrff Cofrestredig

Mae'r rhain yn cynnwys Cyngorau Sir, Awdurdodau'r Heddlu ac Asiantaeth yr Amgylchedd ymhlith sawl un arall.

Cyrff Dynodedig

Mae gofyn bod cyrff sydd â'r hawl i benderfynu, megis Cyngorau Cymuned, benderfynu pwy o blith y rhai hynny y maen nhw'n eu cyflogi sy'n cael ymuno â'r cynllun.

Cyrff Derbyniedig

Gall Cyrff Derbyniedig gymryd rhan yn y cynllun drwy gytundeb derbyn. Caiff y Cyrff Derbyniedig yma nodi un ai rhai o'u gweithwyr sy'n cael ymuno â'r cynllun ynteu bawb.

Tudalen y Cyfranwyr (Pwy yw pwy)

Pennaeth Gwasanaeth Pensiynau, Cyflogres a Thaliadau - Ian Traylor

Mae Ian wedi bod yn gwasanaethu ym maes llywodraeth leol ers 1990 gan ddechrau gyda Chyngor Sir Morgannwg Ganol a throsglwyddo i Gyngor Rhondda Cynon Taf yn ystod cyfnod yr aildrefnu ym 1996. Mae gan Ian gefndir cadarn ym maes rheolaeth ariannol / rheoli risgiau ac mae e wedi treulio'r rhan fwyaf o'i yrfa yn gweithio ym maes Archwilio Mewnol. Ymunodd Ian â'r Gwasanaeth Pensiynau yn 2006 ac mae e'n aelod gweithredol o Banel Cyngori'r Gronfa Bensiwn.



Blaen Gyfrifydd, Y Trysorlys a Buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn - Yvonne Keitch

A hithau wedi gwasanaethu ym myd llywodraeth leol ers dros 30 o flynyddoedd, mae Yvonne yn gyfrifol am weinyddu buddsoddiadau'r gronfa bensiwn. Mae hi wedi bod yn rheoli buddsoddiadau'r gronfa ers 1995.



Cyfrifydd y Trysorlys a'r Gronfa Bensiwn - Vanessa Thomas

Dechreuodd Vanessa weithio yn y byd llywodraeth leol yn 1989, pan ymunodd â Chyngor Bwrdeistref Cwm Rhondda. Trosglwyddodd i Gyngor Rhondda Cynon Taf yn ystod cyfnod yr aildrefnu ym 1996.

Mae hi wedi gweithio yn rhan o'r garfan buddsoddi ers 2005. Ar hyn o bryd, hi yw'r swyddog sy'n gyfrifol am gynnal a chadw, a chau cyfrifon y Gronfa Bensiwn.



Uwch Reolwr y Garfan - Catherine Black

Ymunodd Catherine â ni yn 2013. Cyn hynny bu'n gweinyddu pensiynau mewnol mewn cwmni manwerthu rhyngwladol, gan gynnwys gweithredu newidiadau rheoleiddiol, cyfrifo pensiynau aelodau a rhoi cyflwyniadau i aelodau o'r cynllun.



Aelodau o Bwyllgor y Gronfa Bensiwn

Cadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn - Y Cyngorydd Mark Norris

Y Cyngorydd Norris yw'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol ac mae e'n cynrychioli ward Cwm Clydach. Mae e wedi bod yn Gadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn ers y cyfarfod cyntaf ar 5 Gorffennaf 2016.



Aelod o Bwyllgor y Gronfa Bensiwn - Y Cyngorydd Robert Smith

Mae'r Cyngorydd Robert Smith yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Phanel Troseddau'r Heddlu (Corff Allanol). Mae e'n Aelod Lleol sy'n cynrychioli ward Cwm Rhondda. Y Cyngorydd Smith yw Is-Gadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn ers mis Mai 2017.



Aelod o Bwyllgor y Gronfa Bensiwn - Y Cyngorydd Gareth Caple

Mae'r Cyngorydd Caple yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu, yn aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, y Pwyllgor Craffu ar faterion Cyllid a Chyflawniad, y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, y Pwyllgor Archwilio, Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf (Corff Allanol), Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Cwm Taf ac yn Aelod Lleol sy'n cynrychioli ward y Cymer. Mae'r Cyngorydd Caple wedi bod yn aelod o Bwyllgor y Gronfa Bensiwn ers mis Mai 2017.



Aelod o Bwyllgor y Gronfa Bensiwn - Y Cyngorydd Emyr Webster

Mae'r Cyngorydd Webster yn Aelod Lleol sy'n cynrychioli ward Treorci. Mae e wedi bod yn aelod ers cyfarfod cyntaf Pwyllgor y Gronfa Bensiwn ar 5 Gorffennaf 2016.



Aelod o Bwyllgor y Gronfa Bensiwn - Y Cyngorydd Lewis Hooper

Mae'r Cyngorydd Lewis Hooper yn aelod o'r Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc a'r Pwyllgor Craffu ar faterion Cyllid a Chyflawniad. Mae e'n Aelod Lleol sy'n cynrychioli ward Ton-teg. Mae e wedi bod yn aelod o Bwyllgor y Gronfa Bensiwn ers ei gyfarfod cyntaf ym mis Ionawr 2018.



Aelodau o Banel Cyngori'r Gronfa Bensiwn

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol a Swyddog Adran 151 - Barrie Davies, C.P.F.A.
Ymunodd Barrie ag Awdurdod Lleol Cyngor Morgannwg Ganol yn 1985 gan symud i Rongdd Cynon Taf yn dilyn ad-drefniad ym 1996. Mae Barrie yn aelod gweithredol o'r Panel Cyngori ar Fuddsoddi a Gweinyddu. Cafodd ei benodi i'w swydd bresennol ym mis Mawrth 2019.



Cyfarwyddwr Gwasanaeth Cyllid a Dirprwy Swyddog Adran 151 - Paul Griffiths C.P.F.A.
Mae Paul wedi bod yn gwasanaethu ym maes llywodraeth leol ers 1989 gan ddechrau gyda Chyngor Sir Morgannwg Ganol a throsglwyddo i Gyngor Rhondda Cynon Taf yn ystod cyfnod yr aildrefnu ym 1996. Mae gan Paul gefndir mewn rheolaeth ariannol, Archwilio Mewnol a rheoli cyflawniad corfforaethol, ac fe'i penodwyd i swydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Cyllid a Gwella ym mis Mawrth 2019. Daeth Paul hefyd yn aelod o'r Panel Cyngori ar Fuddsoddi a Gweinyddu ym mis Mawrth 2019.



Pennaeth Gwasanaeth Pensiynau, Cyflogres a Thaliadau - Ian Traylor
Mae Ian wedi bod yn gwasanaethu ym maes llywodraeth leol ers 1990 gan ddechrau gyda Chyngor Sir Morgannwg Ganol a throsglwyddo i Gyngor Rhondda Cynon Taf yn ystod cyfnod yr aildrefnu ym 1996. Mae gan Ian gefndir cadarn ym maes rheolaeth ariannol / rheoli risgiau ac mae e wedi treulio'r rhan fwyaf o'i yrfa yn gweithio ym maes Archwilio Mewnol. Ymunodd Ian â'r Gwasanaeth Pensiynau yn 2006 ac mae e'n aelod gweithredol o Banel Cyngori ar Fuddsoddi a Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn.



Blaen Gyfrifydd, Y Trysorlys a Buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn - Yvonne Keitch
A hithau wedi gwasanaethu ym myd llywodraeth leol ers dros 30 o flynyddoedd, mae Yvonne yn gyfrifol am weinyddu buddsoddiadau'r gronfa pensiwn. Mae hi wedi bod yn rheoli buddsoddiadau'r gronfa ers 1995.



Pennaeth Materion Cyllid (Addysg ac Adroddiadau Ariannol) - Stephanie Davies F.C.C.A.
Yn dilyn gyrfa yn y sector preifat, ymunodd Stephanie â Chyngor Rhondda Cynon Taf yn 2000 fel Blaen Gyfrifydd gyda chyfrifoldeb dros baratoi cyfrifon statudol y Cyngor. Yn ei swydd bresennol, un o gyfrifoldebau Stephanie yw rheoli carfan buddsoddi'r Gronfa Bensiwn a daeth hi'n aelod o Banel Cyngori ar Fuddsoddi a Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn yn ystod 2014.



Cyfrifydd y Trysorlys a'r Gronfa Bensiwn - Vanessa Thomas
Dechreuodd Vanessa weithio yn y byd llywodraeth leol yn 1989, pan ymunodd â Chyngor Bwrdeistref Cwm Rhondda. Trosglwyddodd i Gyngor Rhondda Cynon Taf yn ystod cyfnod yr aildrefnu ym 1996. Mae hi wedi gweithio yn rhan o'r garfan buddsoddi ers 2005. Ar hyn o bryd, hi yw'r swyddog sy'n gyfrifol am gynnal a chadw, a chau cyfrifon y Gronfa Bensiwn.



Carolyn Dobson

Mae Carolyn Dobson yn Gynghorydd Buddsoddi Annibynnol ar ran nifer o Gronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol, gan gynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Sir Swydd Stafford, Cyngor Sir Buckingham a Bwrdeistref London Borough of Enfield. Roedd hi'n Gyfarwyddwr Materion Buddsoddi gyda chwmni Abbey Asset Managers. Mae ganddi dros 30 mlynedd o brofiad yn rheoli cronfeydd ac yn gynghorydd materion buddsoddi.



David Cullinan

Mae David wedi gweithio fel Cynghorydd Buddsoddi Annibynnol y Gronfa ers naw mlynedd. Mae e'n gweithio'n hunangyflogedig bellach ar ôl gweithio am dros 30 o flynyddoedd i State Street. Roedd e'n rheoli cysylltiadau ag amrediad eang o gleientiaid – cronfeydd pensiwn, cwmnïau rheoli asedau, cwmnïau yswiriant, elusennau a sefydliadau. Mae ei gefndir ym maes cyfrifeg buddsoddiadau, gwerthuso buddsoddiadau a phrisio unedau. Treuliai ran helaeth o'i yrfa yn mesur cyflawniad cronfeydd y sector cyhoeddus ac yn benodol ar goladu ystadegau tymor hir a thueddiadau ar ran y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.



Aelodau o Fwrdd y Gronfa Bensiwn

Cynrychiolydd cyflogwyr

Yr Athro Hugh Coombs
(Cadeirydd), Prifysgol De Cymru



Cynrychiolydd cyflogwyr

Mr David Francis,
Coleg y Cymoedd



Cynrychiolydd aelodau

Mr Rob Whiles,
Pensiynwr y Gronfa
Bensiwn RhCT



Cynrychiolydd aelodau

Mrs Angela Pring
Aelod o Gronfa Bensiwn RhCT
a chynrychiolydd undeb llafur
(Unsain)



■ Ian Traylor

Pennaeth Gwasanaeth Pensiynau, Cyflogres a Thaliadau



Adroddiad Materion Gweinyddu



Cyflwyniad

Hoffwn i ddiolch i'n cyflogwyr am eu cefnogaeth mewn perthynas â glanhau data a chyflwyno data diwedd blwyddyn wrth baratoi ar gyfer Prisiad 2019. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y Gronfa yn parhau i roi gwybodaeth gywir i Actiwari'r Gronfa ac Aelodau ein Cynllun yn ei Datganiadau Buddion Blynyddol.

Yn ystod y flwyddyn, cwblhaon ni nifer o weithrediadau ar y cyd gan gynnwys ein 'Cynllun Gwella Data'. O ganlyniad, mae sgôr data gwell (amodol) wedi cael ei roi i'r 'Rheoleiddiwr Pensiynau' yn yr adroddiad blynyddol.

Mae gwelliannau pellach ar y gweill, sy'n cynnwys, cwblhau'r broses o gyflwyno cyflwyniadau data misol 'i-connect' ar draws Cyflogwyr y Gronfa sy'n weddill. Mae hon yn weithred allweddol a fydd yn helpu i wella prydlondeb ac ansawdd data aelodau.

Er mwyn sicrhau bod gan y Gwasanaeth adnoddau digonol i fodloni disgwyliadau ein rhanddeiliaid allweddol, rydyn ni'n parhau i gefnogi a datblygu carfan y Gronfa Bensiwn, a buddsoddi ynddi, trwy hyfforddiant technegol a recriwtio pellach trwy'r rhaglen brentisiaeth.

Er bod y Gronfa wedi gweld cynnydd yn y niferoedd oherwydd y cyfleuster hunanwasanaeth "Fy Mhensiwn Ar-lein", bydd rhagor o waith hyrwyddo yn cael ei wneud. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan y Cyflogwyr a'r Undebau Llafur sy'n cael eu cynrychioli ar fforwm cyfathrebu'r Gronfa.

Prisiad Actiwaraid

Dechreuodd y Prisiad tair blynedd ym mis Ebrill 2019. Cafodd y cyflwyniadau data eu rhoi i'r Actwari ac Adran Actwari'r Llywodraeth erbyn y terfyn amser cytunedig a chytunwyd ar y llinynnau mesur cychwynnol. Wrth ymgymryd â'r Prisiad, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ystyried ac yn adolygu ei amcanion ariannol tymor hir a strategol yn unol â'i Ddatganiad Strategaeth Ariannu.

Bydd y twf mewn enillion buddsoddi ers y cylch prisio diwethaf yn gwella sefyllfa ariannu gyffredinol Cronfa Bensiwn RhCT yn sylweddol. Bydd ystyriaeth a darpariaeth briodol yn cael eu rhoi mewn perthynas â'r goblygiadau ar ymrwymadau cynllun y sector cyhoeddus o ganlyniad i achos cyfreithiol McCloud.

Llywodraethu

Ar lefel genedlaethol, mae Bwrdd Cyngori'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi oedi eu gwaith ar gynigion "cap cost", ochr yn ochr â modelu gan y Trysorlys, nes bod rhwymediâu McCloud yn dod i ben.

Comisiynodd Bwrdd Cyngori'r Cynllun adolygiad i 'Llywodraethu Da' yn y CPLIL, ac yn dilyn arolwg o holl Gronfeydd CPLIL, mae dau weithgor wedi'u sefydlu i drafod y canlynol:

- Safonau a Chanlyniadau
- Cydymffurfio a Gwella

Mae swyddogion yn parhau i gydweithio'n agos â Bwrdd Cronfa Bensiwn RhCT er mwyn ystyried ar y cyd risg a chydymffurfiaeth. Hwylusir cyfarfodydd Cadeiryddion Byrddau Pensiwn Cymru, sy'n cynnwys diweddariad gan yr awdurdod sy'n eu cynnal mewn perthynas â gweithrediadau Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Diogelwch Seibr

Ym mis Ebrill 2018, cyhoeddodd y Rheoleiddiwr Pensiynau 'Egwyddorion Diogelwch Seibr ar gyfer Cynlluniau Pensiwn'. Mae Cronfa RhCT wedi adolygu ei chydymffurfiaeth a'i threfniadau ac mae Pwyllgor a Bwrdd y Gronfa Bensiwn wedi cael yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r risgiau a'r rheolaethau cysylltiedig.

Newidiadau i Drethi Pensiwn Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi

Lwfans Oes

Lwfans Oes yw uchafswm y cynilion pensiwn y mae modd eu cronni drwy gydol eich oes sy'n elwa ar ostyngiad treth y DU. O ganlyniad i Ddeddf Cyllid 2016, mae lefel y Lwfans Oes arferol wedi gostwng eto o 6 Ebrill 2016. Mae'r gostyngiad o £1.25 miliwn i £1 miliwn ar gyfer y blynyddoedd treth 2016/17 a 2017/18. Cynyddwyd y lwfans oes ar gyfer blwyddyn dreth 2018/19 i £1.03 miliwn ac mae'n £1.055 miliwn ar gyfer blwyddyn dreth 2019/20.

Mae unrhyw gynilion pensiwn sy'n uwch na'r lwfans oes yn ddarostyngedig i'r tâl lwfans oes. Bydd y tâl yma'n parhau i fod fel a ganlyn:

- 55% os cymerir y gweddill fel cyfandaliad
- 25% os cymerir y gweddill fel incwm, hynny yw, pensiwn.

Bydd cyfle i ddiogelu unrhyw gynilion pensiwn a gafodd eu cronni cyn 6 Ebrill 2016 rhag tâl Lwfans Oes (ar gyfer cynilion o dros £1 miliwn hyd at uchafswm cyffredinol o £1.25 miliwn ar 5 Ebrill 2016) os bodlonir meini prawf Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Mae modd gwneud cais am Ddiogelwch Unigol neu Ddiogelwch Sefydlog y Lwfans Oes drwy wasanaeth ar-lein newydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi: <https://www.gov.uk/guidance/pension-schemes-protectyour-lifetime-allowance#individual-protection-2016>

Lwfans Blynnyddol

Ers i'r Lwfans Blynnyddol ostwng i £40,000, rydyn ni wedi gweld rhagor o achosion o aelodau sy'n rhagori ar y lwfans yma ac yn cael eu trethu. Mae hyn yn golygu treth sy'n daladwy gan aelodau trwy eu proses hunanasesu unigol neu efallai y bydd cyfle i drefnu opsiwn 'cynllun yn talu' gyda Chronfa Rhondda Cynon Taf.

Mae Carfan Cyfathrebu'r Gronfa yn cyhoeddi llythyr a ffeithlen ar gyfer aelodau unigol sydd efallai wedi cael eu heffeithio gan y Lwfans Blynnyddol.

Ar 6 Ebrill 2016, cyflwynodd y llywodraeth y 'Lwfans Blynnyddol Graddedig' ar gyfer unigolion ag "incwm wedi'i addasu" o dros £150,000. Bydd 'incwm trothwy' o £110,000 yn berthnasol ar gyfer unigolion sydd â chyflogau is. Bydd yn rhoi sicrwydd iddyn nhw os dim ond bob hyn a hyn y byddan nhw'n ychwanegu at eu cynilion pensiwn. Os yw incwm net yr unigolyn yn llai na £110,000, fyddan nhw ddim fel arfer yn destun i'r lwfans blynnyddol graddedig. Cyfradd gostyngiad yn y lwfans blynnyddol yw £1 am bob £2 y mae'r incwm wedi'i addasu yn fwy na £150,000, hyd at ostyngiad o £30,000 ar y mwyaf.

Lansiodd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi gyfrifiannell ar-lein er mwyn helpu aelodau i ganfod swm y lwfans blynnyddol y maen nhw wedi ei ddefnyddio <https://www.tax.service.gov.uk/paac>

Awto-gofrestru

Yn ystod y flwyddyn, ymgwymerodd nifer o Gyflogwyr â'u hailgofrestru lle mai Cronfa RhCT oedd eu cynllun diofyn. Bydd angen i Gyflogwyr y Gronfa sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â holl ofnyion rheolau cymhwysedd awto-gofrestru ac yn cyfathrebu yn briodol â gweithwyr ar yr adegau perthnasol.

Cysoni Isafswm Gwarantedig Pensiynau

Yn dilyn yr opsiwn i gontrectio allan o Bensiwn y Wladwriaeth ychwanegol a ddaeth i ben yn Ebrill 2016 a chyflwyno Pensiwn y Wladwriaeth haen sengl newydd, bydd hawliau contractio allan presennol aelodau'r cynllun yn cael eu diogelu o hyd. Serch hynny, bydd gwasanaethau cymorth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn cael eu lleihau ac fe'u tynnwyd yn ôl ym mis Rhagfyr 2018.

Daeth Cronfa RhCT i ben â'i hymarfer cysoni yn ystod 2018 yn unol â dyddiad cau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, gyda diweddariad cysoni terfynol yn cael ei roi i Bwyllgor a Bwrdd y Gronfa Bensiwn.

Rhyddid i Ddewis / Sgamiau Trosglwyddo

Er nad yw'r rhyddid newydd yn berthnasol i'r CPLIL, mae rhagor o bobl wedi mynegi diddordeb i'r Gronfa yn y posibilrwydd o drosglwyddo buddion i drefniadau Cyfraniad Diffiniedig, er mwyn manteisio ar hyblygrwydd 'Rhyddid i Ddewis'.

Law yn llaw â rhyddid o'r fath, rydyn ni wedi gweld cynnydd cenedlaethol mewn sgamiau trosglwyddo pensiynau.

Mae'n ofynnol i'r Gronfa ymgymryd â gwiriadau diogelu diwydrwydd dyladwy, fodd bynnag, mae hyn wedi achosi gwrthdaro rhwng y Gronfa ac aelodau'r cynllun (a'u cynghorwyr) o ran oedi posibl mewn perthynas â'r broses drosglwyddo.

Atal a Chanfod Twyll

Mae'r Gronfa Bensiwn yn rhan o'r Fenter Atal Twyll Genedlaethol sy'n canolbwyntio ar atal achosion o dwyll a llwgrwobrwyo. Yn rhan o'r fenter yma, mae asiantaethau cyhoeddus yn cael rhannu'r wybodaeth yma er mwyn i bawb fod yn effro i broblemau.

Mae gan y Gwasanaeth Pensiynau hefyd fynediad at Garfan Twyll Corfforaethol y Cyngor er mwyn cefnogi'r broses o fynd ar drywydd unrhyw anghysondebau posibl mewn pensiynau ac erlyn lle bo angen.

Edrych Tuag at y Dyfodol

Yn ddiweddar, mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau wedi cyhoeddi ei adroddiad i'r risgiau llywodraethu a gweinyddu mewn pensiynau gwasanaeth cyhoeddus, a oedd yn cynnwys ymgysylltu â 10 Cronfa CPLIL y DU. Mae'r adroddiad yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol yn erbyn Cod Ymarfer y Rheoleiddiwr, a bydd Cronfa RhCT yn adolygu ei chydymffurfriad yn erbyn argymhellion perthnasol o arfer da a fyddai'n gwella'r trefniadau sydd eisoes ar waith yn y Gronfa.

Mae'r Llywodraeth wedi ymgynghori ar 'Newidiadau i'r Cylch Prisio Lleol a Rheoli'r Risg i Gyflogwyr'. Mae'r cynigion yn ystyried diwygio'r cylch prisio lleol i 4 blynedd, a fyddai'n alinio prisiadau lleol a phrisiadau cynllun. Mae ail ran yr ymgynghoriad yn archwilio'r materion y mae rhai Cyflogwyr yn dod ar eu traws ynghylch crisialu taliadau ymadael ac yn cynnig rhywfaint o hyblygrwydd yn amodol ar sicrwydd risg.

Diwygio Taliadau Ymadael: Yn dilyn fy natganiad y llynedd, mae'n aneglur o hyd i ba radda y mae Llywodraeth San Steffan yn bwriadu mynd ar drywydd pob diwygiad a'r amserlenni dan sylw. Daeth ymgynghoriad ar 'Gyfyngu ar daliadau ymadael yn y sector cyhoeddus, gweithredu rheoliadau' i ben ar 3 Gorffennaf 2019, ac rydyn ni'n aros am ddiweddariad.

Gwybodaeth am Gyflawniad

Mae canlyniadau'r dangosyddion perfformiad allweddol a gafodd eu nodi a'u cytuno gan y Panel Pensiynau am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2019 wedi'u rhestru yn y tabl sydd gyferbyn.

Safonau'r Gwasanaeth

Mae llawer o gyflogwyr y Gronfa wedi gwneud rhywfaint o resymoli ac ailstrwythuro mewnol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn wedi cynyddu ein llwyth gwaith ar gyfer cynhyrchu costau ymddeol cynnar i gyflogwyr, ynghyd ag enghreifftiau a phhecynnau ymddeol i aelodau.


Mae darparu'r wybodaeth gymhleth yma mewn modd amserol a chywir wedi bod yn heriol ond rydyn ni wedi bodloni'r galw heb i safonau ein cyflawniad cyhoeddedig lithro a heb achosi anfantais i waith blaenoriaeth arall.

Mae hyn wedi cael ei gyflawni trwy ailddyrrannu a thargedu adnoddau yn unol â'n hamcanion allweddol.

Anghydfodau

Yn unol â deddfwriaeth, mae gan y Gronfa Bensiwn Weithdrefn Datrys Anghydfodau yn Fewnol sy'n ymdrin â chwynion ffurfiol yn erbyn y Cynllun. Yn ystod 2018/2019 derbyniwyd un gŵyn o dan y weithdrefn ond chafodd y gŵyn mo'i chadarnhau.

Disgrifiad o'r Weithdrefn	Targed Cyflawniad	Targed Ymyrraeth	Cyflawniad Gwirioneddol	Nifer yr achosion a gafodd eu prosesu
Amcangyfrif Ysgariad (amcangyfrif aelodau o'r cynllun)	10 diwrnod	95%	99.51%	203
Budd Diogel (hysbysiad i bobl sy'n gadael)	10 diwrnod	90%	84.45%	2662
Ad-dalu Cyfraniadau (ad-daliad i aelodau o'r cynllun)	10 days	95%	94.14%	665
Cais gan Gyflogwr am Amcangyfrif Ymddeol	5 diwrnod	95%	99.40%	832
Taliad Ymddeol (o aelodaeth weithredol)	5 diwrnod	95%	98.29%	584
Budd Diogel yn Daliad adeg Ymddeol	5 diwrnod	95%	96.28%	913
Trosglwyddo i mewn (cyfrifiad o'r cynllun pensiwn blaenorol gan gynnwys ceisiadau trosglwyddo hwyr)	10 diwrnod	90%	75.81%	186
Trosglwyddo allan (taliad i'r cynllun pensiwn sy'n derbyn yr arian)	10 diwrnod	95%	98.83%	171



Aelodaeth o'r Gronfa

Nifer y Cyflogwyr

	Gweithredol	Ddim yn weithredol bellach	Cyfanswm
Corff Cofrestredig	31	23	54
Corff Derbyniedig	19	10	29
Cyfanswm	50	33	83

Aelodaeth o'r Gronfa ar 31 Mawrth:

Nifer yr aelodau sy'n cyfrannu

Blwyddyn	2015	2016	2017	2018	2019
Nifer	25491	25501	23918	24109	23329

Nifer y Buddiolwyr Gohiriedig

Blwyddyn	2015	2016	2017	2018	2019
Nifer	20255	22358	24641	25956	27104

Nifer y Pensiynwyr a'r Bobl sy'n Ddibynol

Blwyddyn	2015	2016	2017	2018	2019
Nifer	18043	18470	18955	19262	19704

Nifer yr alldyniadau heb eu penderfynu

Blwyddyn	2015	2016	2017	2018	2019
Nifer	2646	2400	2506	2667	2999

Tueddiadau aelodaeth

	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	% Cynnydd / Gostyngiad ers 17/18
Cyflogwyr Gweithredol	43	46	49	49	50	
Cyfranwyr	25491	25501	23918	24109	23329	-3.24%
Pensiynwyr	15499	15830	16315	16609	17025	2.50%
Dibynyddion	2544	2640	2640	2653	2679	0.98%
Buddiolwyr Gohiriedig	20255	22358	24641	25956	27104	4.42%

Cost y Gronfa i bob aelod


	Cost fesul aelod (£)	Cost fesul aelod (£)
	2017/2018	2018/2019
Costau Gweinyddu	25.39	25.15
Treuliau Rheoli'r Buddsoddiadau	120.04	122.69
Costau Goruchwyllo a Llywodraethu	4.29	3.11
CYFANSWM	149.72	150.95

Ar hyn o bryd, mae'r Gronfa Bensiwn yn cyflogi 26 aelod o staff gweinyddu llawn amser a 2 aelod yn adran buddsoddiadau a chyfrifon y Gronfa Bensiwn.


Aelodaeth a Dadansoddiad o'r Gronfa

Aelodaeth y Gronfa ar 31 Mawrth:


Nifer yr aelodau sy'n cyfrannu




Nifer y Buddiolwyr Gohiriedig



Nifer y Pensiynwyr a'r Bobl sy'n Ddibynol



Nifer yr alldyniadau heb eu penderfynu



Dadansoddiad Aelodaeth

Ymadawyr o statws gweithredol

	2017	2018	2019
Ad-dalu cyfraniadau	351	265	116
Trosglwyddo cyfraniadau i gynlluniau eraill	14	7	4
Marw yn ystod gwasanaeth	13	19	18
Ymddeol yn sgil salwch	34	44	30
Ymddeol cynnar/arferol	170	134	157
Ymddeoliadau yn sgil dileu swyddi / ystyriaethau effeithlonrwydd	175	124	193
Ymddeoliadau hyblyg	24	19	18
Ymddeol hwyr	84	54	64
Optio Allan	685	276	224
Buddion diogel	2811	2036	2017
Ymadawyr Eraill	175	160	272
Cyfanswm	4536	3138	3113



Buddion Gohiriedig - rhai sy'n gadael y Cynllun

	2017	2018	2019
Trosglwyddo cyfraniadau i gynlluniau eraill	138	163	144
Marwolaethau	21	20	32
Ymddeol yn sgil salwch	9	6	8
Ymddeol cynnar/arferol	422	320	484
Buddion eraill	24	12	2
Nifer yr aelodau gohiriedig yn ailymuno â'r cynllun	11	6	10
Cyfanswm	625	527	680

■ Yvonne Keitch

Blaen Gyfrifydd, Materion y Trysorlys a Buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn



Adroddiad ar Faterion Buddsoddi



Adroddiad ar Faterion Buddsoddi

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, gwerth buddsoddiadau Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf oedd £3,203.6 miliwn. Erbyn 31 Mawrth 2019 roedd y Gronfa wedi tyfu i £3,456.6 miliwn.

Llwyddodd Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf i gyflawni enillion o 8.8% yn 2018/19, gan sicrhau safle rhif 7 yn ôl canran. Elwodd y Gronfa ar gyflawniad cryf y soddgyfrannau ac osgoi twf wedi'i amrywio (yr ased sy'n cyflawni waethaf). Roedd Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf ymhell o flaen y meincnod dros 3, 5, a 10 blynedd/mlynedd, gan sicrhau safle rhif 5 ar y raddfa yn ôl canran dros 3 blynedd, safle rhif 5 dros 5 mlynedd, a safle rhif 4 dros 10 mlynedd.

Rheoli Buddsoddi

Mae Pwyllgor y Gronfa Bensiwn yn gyfrifol am drefnau gwaith rheoli strategol Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf yn unol â'i gylch gorchwyl.

Mae Cyfarwyddwr Gwasanaethau Rheng Flaen (ac yntau'n Swyddog Adran 151) a gaiff ei gefnogi gan Banel Buddsoddi a Gweinyddu'r Gronfa, wedi dirprwyo cyfrifoldeb am yr holl faterion gweithredol o ddydd i ddydd.

Cyfarwyddwr Cyfadran Gwasanaethau Cyllid a Digidol Rhondda Cynon Taf yw Cadeirydd y Panel, ac mae'r aelodau'n cynnwys dau gynghorydd annibynnol ac uwch swyddogion cyllid eraill.

Bydd y panel yn cyfarfod bob 3 mis i ystyried materion gweinyddu a buddsoddi ac i bennu polisi yn ôl sefyllfa'r farchnad ac i holi a herio'r Rheolwyr Materion Buddsoddiadau am eu cyflawniad. Ar hyn o bryd mae chwe mandad buddsoddi ar wahân.

Soddgyfrannau Traddodiadol Bailie Gifford, Soddgyfrannau Alpha Uchel Twf Byd-eang (Partneriaeth Pensiwn Cymru), Soddgyfrannau Alpha Uchel Cyfleoedd Byd-eang (Partneriaeth Pensiwn Cymru), Bondiau GAM BMO, Eiddo CBRE a Soddgyfrannau Goddefol BlackRock.

Cyflawniad Buddsoddiadau

Mae'r tabl isod yn dangos cyflawniad, ar lefel dosbarth asedau, dros gyfnodau hanesyddol a fesurwyd hyd at 31 Mawrth 2019.

	Blwyddyn		3 blynedd		5 mlynedd	
	Meincnod	Cronfa	Meincnod	Cronfa	Meincnod	Cronfa
	%	%	%	%	%	%
Soddgyfrannau	9.1	10.1	13.4	15.1	10.5	12.6
Bondiau	3.7	4.3	4.1	4.9	5.5	6.0
Eiddo	4.9	8.3	6.5	8.7	6.2	10.0
Arian parod	-3.8	0.3	0.3	-0.5	0.3	-0.2
Cyfanswm yr Asedau	7.8	8.8	10.6	12.1	8.9	10.6

Cyflawniad Rheolwr y Gronfa

Mae manylion ynghylch cyflawniad perthynol pob rheolwr yn erbyn eu meincnodau perthnasol dros gyfnodau hanesyddol ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019 yn y tabl.

Mandad	Rheolwr y Gronfa	Blwyddyn		3 blynedd		5 mlynedd	
		Meincnod	Cronfa	Meincnod	Cronfa	Meincnod	Cronfa
Bondiau	BMO GAM	3.7	3.8	4.1	4.4	5.5	5.5
Soddgyfrannau (traddodiadol)	Baillie Gifford	6.7	9.7	12.3	16.3	9.1	12.4
Soddgyfrannau (goddefol)	BlackRock	10.7	10.9				
Eiddo	CBRE	4.9	7.5	6.5	8.2	6.2	9.5

Penodwyd BlackRock yn rheolwr soddgyfrannau goddefol yn ystod mis Tachwedd 2016.

Daeth mandadau alpha uchel Newton a Baillie Gifford i ben ym mis Ionawr 2019. Trosglwyddwyd asedau i Bartneriaeth Pensiwn Cymru.

Yn dilyn adolygiad o ymrwymiadau'r asedau, terfynwyd mandadau soddgyfrannau'r DU ym mis Awst 2018, er mwyn cynyddu dyraniad y Gronfa mewn bondiau ac eiddo.



Manylion Rheolwyr y Gronfa

Mae manylion gwerth marchnad buddsoddiadau Rheolwyr y Gronfa i'w gweld yn y tabl canlynol:

Rheolwr y Gronfa	Gwerth Marchnad		Cyfran o'r Gronfa	
	31/03/18 £'000	31/03/19 £'000	31/03/18 £'000	31/03/19 £'000
Baillie Gifford (Soddyfrannau)	734,706	799,135	22.9	23.2
Baillie Gifford (Soddyfrannau Alpha Uchel)	748,744	0	23.4	0
Newton (Soddyfrannau Alpha Uchel)	502,347	0	15.7	0
Invesco (Soddyfrannau'r DU)	137,544	0	4.3	0
BlackRock (Soddyfrannau'r DU)	139,837	0	4.4	0
BlackRock (Soddyfrannau Goddefol)	138,755	153,809	4.3	4.4
BMO GAM (Bondiau)	589,971	857,306	18.4	24.8
CBRE (Eiddo)	174,860	263,792	5.4	7.6
Link (Gweithredwr Partneriaeth Pensiwn Cymru)	0	1,363,745	0.0	39.5
Wedi'i Reoli'n Fewnol	36,861	18,857	1.2	0.5
Cyfanswm	3,203,625	3,456,644	100.00	100.00

Doedd dim buddsoddiad unigol yn cyfrif am fwy na 5% o asedau'r Gronfa.

Mae gwerth marchnad y buddsoddiadau yn y tabl yma'n cynnwys buddsoddiadau tymor byr fel gweddill arian neu adneuo arian felly mae'n wahanol i gyfanswm y buddsoddiadau tymor hir yn unig.

Rydyn ni'n ceisio mynd i'r afael ag elfennau o risg buddsoddiadau trwy gyflogi nifer o reolwyr cronfa mewn ymgais i reoli risg rheolwyr, a gyda mandadau sy'n cynnwys ystod o asedau gan gynnwys soddyfrannau, bondiau ac eiddo. Mae disgwyl i reolwyr gynnal casgliad eang o gyfrifon buddsoddi a chydymffurfio â rheoliadau buddsoddi Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, ynghyd ag unrhyw gyfyngiadau ychwanegol sy'n rhan o'u mandadau. Mae'r sector gwladol a diwydiant yn amrywio buddsoddiadau gwaelodol ymhellach.

Caiiff cyflawniad pob rheolwr ei fesur bob chwarter yn erbyn targed sydd wedi'i ddynodi yn erbyn meincnod penodol. Yn ei hanfod, mae hyn yn rhwystro rheolwyr rhag symud i ffwrdd yn rhy bell oddi wrth y nod, ond yn caniatáu peth hyblygrwydd i chwyddo elw ar fuddsoddiadau ar yr un pryd.

Elw a cholledion ar Fuddsoddiadau

Ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019, cafodd y Gronfa enillion o 8.8% yn erbyn enillion cyfartalog awdurdod lleol PIRC o 7.0% a oedd wedi'i restru'n rhif 7. Enillion y Gronfa dros 3 blynedd oedd 12.1% o'i gymharu â chyfartaledd PIRC o 10.5%, sef rhif 5 ar y raddfa yn ôl canran ymhlith y cronfeydd a gafodd eu mesur.

	2017/18 £'000	2018/19 £'000
Elw ar werthiannau	176,900	657,501
Colledion ar werthiannau	(35,942)	(51,788)
Elw net / (colled) ar werthiannau	140,958	605,713
Newid yng ngwerth y farchnad	(5,928)	(401,019)
Gwir gynnydd/ (gostyngiad) mewn gwerth	135,030	204,694

Trefnau gwarchod

Mae Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf wedi penodi State Street i weithredu'n geidwad cyfranddaliadau'r Gronfa. Caiiff cyfranddaliadau'u dal yn ôl gorchymyn y ceidwad er budd Rhondda Cynon Taf. Mae cwmni State Street yn cael ei reoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol. Mae Link, gweithredwr Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi penodi Northern Trust i weithredu fel ceidwad ar gyfer cyfranddaliadau Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Ffioedd Rheolwyr a Chynghorwyr y Gronfa

Codir ffioedd rheolwr cronfa ar raddfa sy'n lleihau yn seiliedig ar werth marchnad y gronfa.

Yn ogystal â ffioedd rheolwyr cronfa, mae costau anuniongyrchol buddsoddiadau ym Mhartneriaeth Pensiwn Cymru yn cael eu hadlewyrchu yng ngwerth ased net yr unedau cyfun.

Mae cynghorwyr y gronfa'n derbyn tâl sefydlog bob blwyddyn am eu gwasanaethau ac am fynychu cyfarfodydd bob tri mis. Mae costau ychwanegol i'w talu yn achos cyfarfodydd arbennig eraill.

Dadansoddiad o'r Buddsoddiadau ar sail Gwerth Teg

	2017/18		2018/19	
	£'000	£'000	£'000	£'000
Soddgyfrannau				
Y DU	473,325		279,594	
Tramor	1,499,865		396,482	
		1,973,190		676,076
Bondiau				
Y DU	552,838		767,811	
Tramor	28,909		76,117	
		581,747		843,928
Cronfeydd cyfun				
Y DU	156,755		19,189	
Sogyfrannau byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru	0		1,363,745	
Tramor - arall	237,113		253,893	
		393,868		1,636,827
Cronfeydd cyfun - eiddo				
Y DU - arall	165,342		260,292	
Tramor - arall	2,489		559	
		167,831		260,851
Cyfanswm y buddsoddiadau hirdymor		3,116,636		3,417,682

Dydy'r Gronfa ddim wedi cymryd rhan mewn unrhyw drefniadau benthyca stoc yn ystod y flwyddyn ond cytunwyd i wneud hynny yn y dyfodol.

Mae'r buddsoddiadau i gyd, ar wahân i eiddo, wedi'u nodi'n fuddsoddiadau a ddyfynnwyd, sydd wedi'u pennu'n fuddsoddiadau ar sail gwerth teg a bu dim gwaith aildosbarthu. Mae gwerthoedd yr asedau sydd wedi'u cario yn y fantolen yr un peth â'r Gwerth Teg uchod.

Mae gan y Gronfa Bensiwn contractau deilliadol sy'n cael eu priso fel ymrwymiad yn y Datganiad Asedau Net ar 31 Mawrth 2019.

Mae'r buddsoddiadau uchod yn Offerynnau Ariannol wedi'u dynodi'n "Werth Teg drwy Elw a Cholled". Mae pob incwm yn sgil buddsoddi, elw/colled ar waredu buddsoddiadau, a newidiadau yng ngwerth y buddsoddiadau yng Nghyfrif y Gronfa yn codi o Offerynnau Ariannol wedi'u dynodi yn "Werth Teg drwy Elw a Cholled", ac eithrio llog ar Arian Parod. Mae arian parod yn Offerynnau Ariannol wedi'u dynodi'n "Fenthyciadau a Derbyniadau".

Mae'r soddgyfrannau a'r arian parod wedi'u crybwyll wedi'u categorioiddio yn hierarchaeth gwerth teg lefel 1. Mae bondiau, eiddo cyfun, buddsoddiadau cyfun ym Mhartneriaeth Pensiwn Cymru a chontractau deilliadol yn cael eu dosbarthu fel hierarchaeth gwerth teg lefel 2.

Dosbarthiad Daearyddol y Gronfa

Mae Rheolwyr y Gronfa yn buddsoddi mewn cyfrannau mewn nifer o wledydd. Mae'r tabl isod yn nodi gwerth stociau a chyfrannau Rheolwyr y Gronfa ar 31 Mawrth 2019:

Ardal	£'000	%
Soddgyfrannau'r DU	298,783	8.7
Soddgyfrannau Ewrop	173,961	5.0
Soddgyfrannau'r UD a Chanada	266,310	7.7
Soddgyfrannau Siapan	11,988	0.3
Soddgyrannau 'Pacific'	79,312	2.3
Soddgyfrannau Rhyngwladol eraill	118,804	3.4
Soddgyfrannau Cyfun Byd-eang	1,363,745	39.5
Bondiau	843,928	24.4
Eiddo	260,851	7.6
Arian Parod a Chyfrwerth	38,962	1.1
Cyfanswm	3,456,644	100

Dyw'r symiau a nodir ddim yn dangos cronfeydd heb eu clirio.

Dadansoddi incwm yn sgil buddsoddi sydd wedi'i gronni yn ystod 2018/19

	DU £'000	Tu allan i'r DU £'000	Byd-eang £'000	Cyfanswm £'000
Soddgyfrannau	2,673		34,182	36,855
Bondiau	22,885	1,225		24,110
Eiddo Amgen	5,942	0		5,942
Arian Parod ac Opsiynau Eraill	161			161
Cyfanswm	31,661	1,225	34,182	67,068

Mae symiau a nodir yn dangos cronfeydd heb eu clirio.

Dadansoddi asedau'r Gronfa, yn gywir ar 31 Mawrth 2019

	DU £'000	Tu allan i'r DU £'000	Byd-eang £'000	Cyfanswm £'000
Soddgyfrannau			2,312,903	2,312,903
Bondiau	767,811	76,117		843,928
Eiddo Amgen	260,292	559		260,851
Arian Parod ac Opsiynau Eraill	18,857		20,105	38,962
Cyfanswm	1,046,960	76,676	2,333,008	3,456,644

Y Daliadau Mwyaf

Y deg daliad mwyaf ar gyfer rheolwr y gronfa soddgyfrannau Baillie Gifford ar 31 Mawrth 2019 yw:

10 Daliad Mwyaf Baillie Gifford

Cyfran	£'000
Amazon	19,765
Cwmni Prudential	13,792
BHP Billiton	12,668
Diageo	11,758
St James Place	10,074
Wayfair	9,819
Netflix	9,713
Rio Tinto	9,408
Royal Dutch Shell	9,299
IMCD Group NV	8,787

Datganiad y Strategaeth Fuddsoddi

1. Cyfrifoldeb Cyffredinol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yw'r corff statudol dynodedig sy'n gyfrifol am weinyddu Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf ar ran y cyrff cyfansoddol sydd ar y rhestr a'r rhai hynny sydd wedi'u derbyn i'r Cynllun. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am bennu polisi buddsoddi, penodi personau addas i weithredu'r polisi hwnnw ac adolygu a monitro'r buddsoddiadau yn rheolaidd.

Mae'r Cyngor wedi sefydlu Pwyllgor Cronfa Bensiwn sy'n gytbwys o ran gwleidyddiaeth. Mae'n cynnwys aelodau etholedig sy'n goruchwyllo cyfrifoldeb y Cyngor o ran gweinyddu'r Gronfa Bensiwn. Mae'r pwyllgor yma'n gyfrifol am drefnu rheoli strategol y Gronfa Bensiwn.

Mae'r Cyngor wedi penodi'r Cyfarwyddwr Cyfadrn - Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen fel y swyddog sydd â chyfrifoldebau Adran 151 i arfer pwerau wedi'u dirprwyo i wneud penderfyniadau mewn perthynas â'i gyfrifoldebau o ran y Gronfa Bensiwn. Rydyn ni wedi sefydlu Panel Cyngori - Gweinyddu a Buddsoddi yn gefn iddo. Dyma'r aelodau o'r Panel:

- Dirprwy Swyddog Materion Adran 151
- Pennaeth Materion Cyllid (Addysg ac Adroddiadau Ariannol)
- Pennaeth Gwasanaeth (Pensiynau, Taliadau a Chyflogres)
- Blaen Gyfrifydd, Materion y Trysorlys a Buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn
- Uwch Gyfrifydd, Materion y Trysorlys a Buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn
- Cyngorwyr Annibynnol

Mae'r Panel a'r Pwyllgor yn cwrdd bob 3 mis. Dydy'r Cyngor ddim yn ymddiriedolwr yng ngwir ystyr y gair (yn dechnegol, Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yw'r ymddiriedolwr), ond yn hytrach, mae'n gweithredu fel lled-ymddiriedolwr.

Yn unol â gofynion Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013, mae Bwrdd y Gronfa Bensiwn wedi'i sefydlu er mwyn helpu Cyngor Rhondda Cynon Taf, ac yntau'n "Rheolwr Cynllun", i lywodraethu a gweinyddu Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf mewn modd effeithiol ac effeithlon.

Yn unol â Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013, adrannau 5(1) a 5(2), swyddogaeth y Bwrdd Pensiwn yw helpu Awdurdod Gweinyddu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, ac yntau'n Rheolwr Cynllun, i wneud y canlynol:

- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r Prif Reoliadau ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â threfniadau llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol;
- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion a gafodd eu pennu gan y Rheoleiddiwr Pensiynau mewn perthynas â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol; a
- Sicrhau bod y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael ei lywodraethu a'i weinyddu'n effeithiol ac effeithlon gan Reolwr y Cynllun.

Bydd y Bwrdd Pensiwn yn goruchwyllo'r materion uchod ac oherwydd hynny, fydd e ddim yn gwneud penderfyniadau mewn perthynas â rheoli'r Gronfa ei hun.

Mae manylion llawn y trefniadau llywodraethu i'w cael ar www.rctpensions.org.uk

2. Prif Amcan y Gronfa

Prif amcan y Gronfa yw ariannu buddion pensiwn a chyfandaliadau i'r aelodau wedi iddyn nhw ymddeol neu i'r rheiny sy'n ddibynol arny'n nhw ar ôl i'r aelod farw, boed hynny cyn ymddeol neu wedi hynny, yn unol â rheoliadau'r Cynllun.

3. Amcanion Cyllido

Dylai Rhondda Cynon Taf weinyddu'r gronfa yn y fath fodd fel bo gwerth y gronfa, o dan amgylchiadau cyffredin, yn fwy na digon i dalu'r hyn sy'n ddyledus i'r aelodau hynny sydd wedi ymddeol a bod canran cyfraniadau'r aelodau sydd heb ymddeol yn cael ei phennu yn ddigonol ar gyfer cynnal costau'r dyfodol.

Mae'r Datganiad Strategaeth Ariannu a'r Datganiad Strategaeth Fuddsoddi yn rhan annatod o'i gilydd, a'u bwriad yw darparu cyfraddau cyfrannu sefydlog ar gyfer cyflogwyr.

Yr amcan buddsoddi yw sicrhau'r lefel uchaf bosibl o adenillion gyda lefel dderbyniol o risg, gan gynyddu sicrwydd y gost ar gyfer cyflogwyr a lleihau'r gost hirdymor.

Amcan y Gronfa yw sicrhau adenillion ar asedau'r Gronfa sy'n ddigonol, dros y tymor hir, i gwrdd â'r amcanion ariannu yn barhaus.

Bydd y Panel Buddsoddi a Gweinyddu, ar y cyd â Chyfarwyddwr Cyfadrn y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen yn sicrhau bod un neu ragor o reolwyr y buddsoddiadau yn cael eu penodi i weinyddu asedau'r gronfa bensiwn yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016.

Bydd cytundebau/mandadau yn cael eu sefydlu ar gyfer cyfarwyddo rheolwyr ynghylch y ffordd bydd y portffolio o fuddsoddiadau yn cael ei reoli.

Efallai bydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn, gan ystyried cyngor Cyfarwyddwr Cyfadrn y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen, yn rhoi cyfarwyddiadau penodol ynghylch dyrannu asedau strategol a bydd yn sicrhau bod yr asedau'n addas mewn perthynas ag anghenion y Gronfa. Bydd gan reolwyr buddsoddi feincnod a tharged sy'n adlewyrchu eu mandad ac fe gân nhw ddefnyddio eu disgrisiwn llawn eu hunain i ddewis stociau unigol. Bydd disgwyl iddyn nhw gynnal portffolio amrywiol o fewn y cyfyngiadau sydd wedi'u pennu ym mhob mandad.

4. Polisi Amrywiaethu: Gofyniad i fuddsoddi arian y gronfa mewn amrywiaeth eang o fentrau

Mae'r gronfa'n buddsoddi mewn ystod o ddosbarthiadau asedau i helpu i leihau risg y portffolio yn gyffredinol. O wneud hyn, bydd y tangyflawniad yma'n cael ei gydbwysu gan asedau sy'n cyflawni'n well ar yr adeg honno, os nad yw dosbarth ased unigol yn cyflawni'n dda. Mae'r portffolio hefyd yn cael ei amrywio i leihau anwadalrwydd mewn cyflawniad.

Mae'r gronfa'n cael ei amrywio i mewn i'r dosbarthiadau ased canlynol:

- Soddgyfrannau
- Bondiau
- Eiddo
- Arian Parod

Comisiynodd y Gronfa adolygiad Asedau / Atebolrwydd yn 2013. Nod sylfaenol yr adolygiad oedd gosod buddsoddiadau'r Gronfa er mwyn mwyhau'r tebygolrwydd o gyflawni'r elw tybiedig gyda'r prisiad actiwaraid (a lleihau'r risg o beidio â'i chyflawni), gan sicrhau bod y Gronfa Bensiwn yn cael ei buddsoddi yn y ffordd fwyaf effeithlon.

Cafodd Aon Hewitt ei benodi i roi'r farn ar risg/enillion strategaeth fuddsoddi bresennol y Gronfa Bensiwn. Yn dilyn hyn, gofynnwyd iddo roi sylwadau ac argymhell modelau eraill a allai gyflawni amcanion hirdymor y Gronfa.

Gan ddefnyddio dull enghreifftio ar gyfrifiadur, ymgwymerwyd ag efelychiadau ar gyfer strategaethau ased portffolios gwahanol. Amcangyfrifodd y model y tebygolrwydd o gyflawni amrywiaeth o ganlyniadau ariannu dros gyfnodau amser gwahanol o ystyried y strategaeth dyrannu asedau gyfredol. Cyflawnodd y dyraniad mwyaf yn y portffolio enillion a allai fod yn uchel, ond hwn oedd yr un â'r lefel uchaf o risg.

Cafodd strategaethau amgen ar gyfer dyrannu asedau eu hystyried yn fodd posibl o gynyddu amrywiaethu. Cafodd opsiynau eu hadolygu gan y Panel ar yr adeg honno. Nododd y Panel nad oedd Cronfa Rhondda Cynon Taf ar risg uchel o'i chymharu â chronfeydd CPLIL eraill, a bod rhai o'r dewisiadau amgen posibl wedi arwain at fuddsoddi mewn dosbarthiadau ased drud, ac yn farchnadoedd roedd hi'n anodd cael mynediad atyn nhw.

Daeth y Panel i'r casgliad y byddai'n aros gyda'r un strategaeth dyrannu asedau ar hyn o bryd.

Mae amrywiaethu ecwiti yn cael ei wella ymhellach drwy fod â 6 rheolwr a phob un â'i ddull/mandad gwahanol ei hun. Mae'r gronfa'n amrywio risg yr ecwiti trwy ddal yr ystod ganlynol o fandadau:

- Soddgyfrannau Traddodiadol Byd-eang
- Soddgyfrannau Alpha Uchel (2 reolwr)
- Soddgyfrannau'r DU (2 reolwr)
- Soddgyfrannau Goddefol

Yn dilyn yr uchod, dyma'r targed a'r canrannau uchaf o'r cyfanswm o'r holl fuddsoddiadau y byddwn ni'n eu buddsoddi mewn buddsoddiadau neu ddosbarthiadau ased penodol:

Dosbarthiad yr Ased	Canran darged y Gronfa	Canran uchaf o'r Gronfa
Soddgyfrannau Alpha Uwch Byd-eang	30%	85%
Soddgyfrannau Traddodiadol	20%	
Soddgyfrannau'r DU	10%	
Soddgyfrannau Goddefol	5%	
Llog Sefydlog (Bondiau)	25%	35%
Eiddo	10%	20%
Arian parod		10%

Mae'r targed uchod yn ffurfio sail meincnod wedi'i addasu y mae cyflawniad y Gronfa yn cael ei fonitro yn ei erbyn. Mae'r meincnod wedi'i addasu yn symud yn unol ag ansefydlogrwydd y farchnad. Dydy dyraniad asedau'r portffolio ddim yn cael ei ail-gydbwysu'n rheolaidd, ond mae'n cael ei adolygu bob blwyddyn i sicrhau nad yw'r enillion targed yn cael eu heffeithio'n andwyol.

Chawn ni ddim caniatáu mwy na 5% o gyfanswm gwerth buddsoddiadau'r arian cronfa sydd yn gysylltiedig â Deddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007.

Wrth asesu'r polisi amrywio, bydd y Gronfa yn ymgynghori â chynghorwyr annibynnol.

5. Polisi Dyrannu Asedau:
Asesiad o addasrwydd
buddsoddiadau penodol a'r mathau
o fuddsoddiadau

Mae'r buddsoddiadau yn cael eu dewis yn ôl eu haddasrwydd i fodloni amcan cyffredinol y gronfa, sef, cwrdd â'r rhwymedigaethau pensiwn wrth iddyn nhw ddod yn ddyledus. Mae lefel ofynnol yr enillion yn cael ei llywio gan y prisiad actiwaraid teirblwydd.

Yn yr hirdymor, mae asedau anwadalrwydd isel megis buddsoddiadau gilt yn ymddwyn mewn modd tebyg i rwymedigaethau pensiwn ac felly fe fydden nhw'n "cyfateb â" phriodoleddau'r rhwymedigaethau pensiwn. Serch hynny, mae'r gofyniad i gyflawni elw uwch dros dymor hwy yn cael ei gyflawni (ar gyfartaledd) gan fathau eraill o asedau megis stociau neu eiddo.

Mae'r portffolio cyfredol wedi'i lunio gyda chynghor actiwaraid a chynghorydd annibynnol i gyrraedd lefel benodol o elw o fewn paramedrau risg.

Mae pob rheolwr wedi llofnodi cytundeb sy'n amlinellu meincnodau, targedau, ystod dyrannu asedau ac unrhyw gyfyngiadau perthnasol yn unol â chanllawiau'r Pwyllgor.

Mae'r canlynol yn dangos dyraniad y Gronfa ym mis Mawrth 2017:-

	% o'r Gronfa a fuddsoddwyd
Soddgyfrannau'r DU	21%
Soddgyfrannau Gwledydd Tramor	
UD	27%
Cyfandir Ewrop	13%
Soddgyfrannau Rhyngwladol eraill	12%
Cyfanswm y Bondiau	19%
Eiddo	6%
Arian parod ac Adneuon	2%

Mae Pwyllgor y Gronfa Bensiwn wedi penderfynu peidio â buddsoddi mewn soddgyfrannau preifaf ar hyn o bryd.

Mae Pwyllgor y Gronfa Bensiwn wedi penderfynu peidio â benthg stoc ar hyn o bryd.

Mae'r Strategaeth Dyrannu Asedau yn cael ei hadolygu yn flynyddol i sicrhau bod enillion, risg ac anwadalrwydd yn cael eu rheoli ac yn gyson â'r strategaeth fuddsoddi gyffredinol.

6. Polisi ynglŷn â risg: Ymagwedd
at risg, gan gynnwys y ffyrdd y mae
risgiau'n cael eu mesur a'u rheoli

Mae'r Gronfa yn cadw Cofrestr Risg a gytunir gan y Panel Cyngori ar Fuddsoddi a Gweinyddu ac mae hynny'n cael ei adrodd i'r Bwrdd Pensiynau a'r Pwyllgor Pensiynau bob chwarter. Mae'r Gofrestr Risg yn archwilio i faterion cyllido, buddsoddi, gweithredu a llywodraethu, yn rhestru risgiau o ran tebygolrwydd ac effaith ac yn nodi mesurau lliniaru.

Risg Buddsoddi

Mae hyn yn cwmpasu eitemau megis cyflawniad marchnadoedd ariannol a rheolwyr buddsoddi'r Gronfa, ail-ddyrannu asedau mewn marchnadoedd anwadal, gan arwain at y risg o fuddsoddiadau sydd ddim yn cyflawni (incwm) neu gynyddu mewn gwerth (twf) yn ôl y rhagolygon. Enghreifftiau o risgiau penodol fyddai:

- asedau sydd ddim yn rhoi'r enillion gofynnol (am ba reswm bynnag, gan gynnwys tangyflawniad rheolwyr)
- risg systemig gyda'r posibilrwydd o anwadalrwydd marchnad ariannol rhyng-gysylltiedig a chydamserol
- cyllid annigonol i gwrdd â rhwymedigaethau wrth iddyn nhw ddod yn ddyledus
- mae cyngor actiwaraid annigonol, anaddas neu anghyflawn yn cael ei roi a'i weithredu
- methiant y parti arall

Dyma'r risgiau penodol sy'n gysylltiedig ag asedau a dosbarthiadau ased:

- soddgyfrannau – diwydiant, gwlad, maint a risgiau stoc
- incwm sefydlog – cromlin elw, risgiau credyd, risgiau hyd a risgiau'r farchnad
- asedau amgen – risgiau llif asedau, risg eiddo, risg alpha
- marchnad arian – risg credyd a risg llif asedau
- risg arian breiniol
- risgiau macro-economaidd

Trwy osod meincnodau ar gyfer hawliau'r rheolwyr i fuddsoddi arian y gronfa a thrwy gymharu cynnydd y buddsoddiadau â thargedau penodol, rydyn ni'n gofalu nad yw'r rheolwyr yn crwydro oddi wrth ein canllawiau cyffredinol. Eto i gyd, mae'n canllawiau ni'n ddigon ystywyth i reoli'r gronfa mewn modd a fydd yn cynyddu'r adenillion.

Yr amcan buddsoddi cyffredinol yw gwneud y gorau o adenillion buddsoddi a lleihau cyfraniadau cyflogwyr dros y tymor hir o fewn goddefiadau risg cytunedig.

Y gofyniad yw symud tuag at gyllid o 100% dros gyfnod o amser. Bydd y lefel ariannu yn cael ei chyfrifo bob 3 blynedd, yn dilyn proses adolygu gan yr actwari.

Mae asedau'r Gronfa yn cael eu rheoli ar sail weithredol (ac eithrio'r mandad Soddgyfrannau Goddefol Byd-eang) ac mae disgwyl iddyn nhw gyflawni'n well na'u meincnodau dros yr hirdymor. Yn y modd yma, y disgwyl yw y bydd y cyflawniad buddsoddi sy'n cael ei gyflawni gan y Gronfa yn fwy na'r gyfradd adennill y mae'r Actiwari wedi'i ragdybio o fewn y prisiad.

Mae rheolwyr buddsoddi'r Gronfa wedi cael meincnodau a thargedau cyfartalog wedi'u pwysoli i adlewyrchu eu mandadau. Mae gyda ni weithdrefnau monitro ar gyfer materion dyrannu asedau a dewis stoc y farchnad. Mae'r targedau cyfredol ar gyfer pob mandad fel a ganlyn:-

Portffolio	Mynegai Meincnod Portffolio	Targed Portffolio
Rheolwr Soddgyfrannau Traddodiadol	DU - FTSE All Share US - FTSE All World Ewrop – FTSE All World Europe Dwyrain Pell - FTSE All World Developed Asia Gwledydd Eraill - Mynegai Newydd MSCI	Mynegai Cyfansawdd + 1% y flwyddyn dros y cyfnod treigl 3 blynedd
Rheolwr soddgyfrannau goddefol byd-eang	FTSE A W All World	Mynegai
Rheolwyr alpha-uwch byd-eang	MSCI All Countries World Index	Mynegai + 2% dros y cyfnod treigl 3 blynedd
Rheolwr Llog Sefydlog	Bondiau Llywodraeth y DU - FTS UK Govn All Stocks UK Corfforaethol - IBoxx GBP Non Gilts	Mynegai Cyfansawdd + 0.5% y flwyddyn dros y cyfnod treigl 3 blynedd
Rheolwr Eiddo	Mynegai Prisiau Defnyddwyr	Mynegai +4.5%

Mae'r Panel yn adolygu gwaith y rheolwyr yn gyson ar sail y data chwarterol a blyneddol mae'n eu cael gan asiantaethau rheoli cyflawniad allanol.

O benodi mwy nag un rheolwr dros ein buddsoddiadau, mae'r risg yn cael ei wasgaru.

Y disgwyl yw y bydd pob rheolwr yn cynnal portffolio amrywiol o fuddsoddiadau a chadw at y cyfyngiadau sydd wedi'u gosod o fewn eu cytundeb.

Mae gan Reolwyr Cronfa gyfyngiadau buddsoddi hefyd fel a ganlyn:

	Gov Bond Expos - Cyfanswm Isafswm 30% Mwyafswm 70%	Non Gov Exp 30% (ar y lleiaf) – 70% (ar y mwyaf)	Gwledydd eraill Exp - Cyfyngiad o 30%	Canran uchaf daliad o 15% ar gyfryngau cyfunol	Canran uchaf 10% mewn unrhyw ddaliad unigol	Uchafswm o 10% mewn arian parod	Uchafswm o 5% mewn arian parod	Dim un ecwiti tramor unigol yn fwy na 5% o gyfanswm gwerth y gronfa	Daliad uchaf posibl yn y cynllun ymddiriedolaeth - 25%	Uchafswm o 25% mewn Marchnadoedd Newydd	Daliad uchaf posibl yn y cynllun OEIC - 25%	Canran uchaf 10% mewn unrhyw ddaliad tramor (wedi'i ychwanegu Ion 16)
BMOGAM Bondiau	●	●	●	●								
Baillie Gifford - Rheolwr Traddodiadol					●	●		●	●			
Alpha Uchel Baillie Gifford					●	●			●			
Alpha Uchel Newton					●				●	●		
Soddgyfrannau Goddefol BlackRock					●				●		●	●
Soddgyfrannau Invesco UK	DIM CYFYNGIADAU - CRONFA GYFUN											
BlackRock (soddgyfrannau goddefol)	DIM CYFYNGIADAU - CRONFA GYFUN											
CBRE Eiddo					●		●					

Mae cyflawniad y marchnadoedd a'r rheolwyr yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Panel Cyngori ar Fuddsoddi, sydd â'r sgiliau a'r hyfforddiant priodol sy'n ofynnol i ymgymryd â'r dasg yma. Mae'r Panel hefyd yn cael ei gefnogi gan Ymgynghorwyr Annibynnol sy'n rhoi cyngor i alluogi'r Panel i gyflawni ei swyddogaethau i'r safon orau bosibl.

7. Dull o gyfuno buddsoddiadau, gan gynnwys y defnydd o ddulliau buddsoddi ar y cyd a gwasanaethau wedi'u rhannu

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi penodi Link Fund Solutions Ltd (Link) i sefydlu a rhedeg cyfrwng buddsoddi ar y cyd at ddefnydd cronfeydd CPLIL Cymru yn unig. Bydd hyn yn galluogi cyfuno asedau ar draws ystod o fathau o asedau.

Bydd Link yn sefydlu ac yn rhedeg Cynllun Cytundebol Awdurdodedig (cyfrwng cyd-fuddsoddi y DU sy'n effeithlon o ran trethi) ar ran Partneriaeth Pensiwn Cymru. Bydd gan y Cynllun Cytundebol Awdurdodedig is-gronfeydd mewn ystod o fathau o asedau a fydd yn diwallu anghenion cronfeydd CPLIL yng Nghymru, i'w galluogi i weithredu eu strategaethau dyrannu asedau gwahanol.

Gyda chefnogaeth Russell Investments, ac mewn ymgynghoriad â'r 8 cronfa CPLIL unigol, bydd Link yn dechrau'r broses o benodi nifer o reolwyr buddsoddi. Bydd cronfeydd y CPLIL yn cadw rheolaeth lawn dros benderfyniadau dyrannu asedau strategol. Bydd gan Northern Trust ddyletswyddau ceidwadol.

Drwy ddefnyddio llai o reolwyr buddsoddi a mandadau mwy o faint, disgwylir y bydd modd i Bartneriaeth Pensiwn Cymru leihau'r ffioedd, sef un o brif amcanion polisi'r Llywodraeth. Dyma grynoded o amcanion cyfuno Partneriaeth Pensiwn Cymru:

- Darparu swm cyson o adenillion dros ben ar ffioedd.
- Amrywiaethu risg rheolwyr.
- Lleihau ffioedd cyfartalog y rheolwyr.
- Cyflawni effeithlonrwydd treth trwy adennill treth wrth gefn ar ddifidendau (ar gyfer is-gronfeydd ecwiti heb fod yn y DU).
- Rhannu costau trosglwyddo mewn modd teg i mewn i is-gronfeydd.

8. Sut y mae elfennau cymdeithasol, amgylcheddol a llywodraethol yn cael eu hystyried wrth ddewis, peidio â dewis, cadw a chyflawni buddsoddiadau.

Y brif egwyddor sy'n rhedeg trwy bolisi materion buddsoddi'r Gronfa yw cael yr adenillion mwyaf posibl trwy fanteisio ar yr ystod lawn o fuddsoddiadau yn unol â rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Er mai gwneud elw yw ein prif gyfrifoldeb, lle bo hyn yn bosibl, mae'r Gronfa yn ymroi i gynnwys ffactorau Buddsoddi Cyfrifol (ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu corfforaethol) yn y broses buddsoddi. Mae'r ffactorau nad ydyn nhw'n ariannol yma'n cael eu hystyried i'r graddau nad ydyn nhw'n niweidiol i adenillion buddsoddiadau'r Gronfa.

Gyda'r materion yma mewn cof, dylai penderfyniadau ynghylch dewis stociau y rheolwyr fod yn well, yn hytrach na chyfyngu ar ddewis mewn unrhyw ffordd. Dydy'r Gronfa ddim yn 'hidlo' stociau sydd ar gael i'r rheolwyr mewn modd negyddol.

Mae'r Gronfa yn mynnu bod ei reolwyr buddsoddi yn integreiddio'r holl ffactorau ariannol a'r ffactorau nad ydyn nhw'n ariannol, i'r broses gwneud penderfyniadau ar gyfer pob buddsoddiad. Ar ben hynny, mae'n disgwyl i'w reolwyr ymgysylltu, dylanwadu a hyrwyddo llywodraethu corfforaethol da yn rhagweithiol yn y cwmnïau a'r marchnadoedd y mae'r Gronfa yn agored iddyn nhw.

Mae holl reolwyr buddsoddi'r Gronfa wedi ymrwmo i Egwyddorion Buddsoddiad Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig (UNPRI), sy'n annog perchnogion asedau a rheolwyr asedau i gynnwys materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu i ddadansoddi buddsoddiadau a gwneud penderfyniadau, bod yn berchnogion gweithredol, ceisio datgelu materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu a hyrwyddo'r egwyddorion o fewn y diwydiant.

Dyma'r chwe egwyddor:

- Byddwn ni'n cynnwys materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn y prosesau dadansoddi buddsoddiadau a gwneud penderfyniadau;
- Byddwn ni'n weinyddwyr gweithredol ac yn cynnwys materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn ein polisiau a'n harferion gweinyddu;
- Byddwn ni'n ceisio cydnabyddiaeth briodol ynglŷn â materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu gan y mentrau rydyn ni'n buddsoddi ynddyn nhw;
- Byddwn ni'n hyrwyddo derbyn yr Egwyddorion a'u gweithredu o fewn y diwydiant buddsoddi;
- Byddwn ni'n gweithio gyda'n gilydd i wella ein heffeithiolrwydd wrth weithredu'r Egwyddorion; a
- Bydd pob un ohonon ni'n adrodd ar ein gweithrediadau a'n cynnydd tuag at weithredu'r Egwyddorion.

Mae'r Gronfa yn aelod o Fforwm Cronfa Bensiwn Llywodraeth Leol (LAPFF). Diben LAPFF yw hyrwyddo buddiannau buddsoddi cronfeydd pensiynau llywodraeth leol, ac i gryfhau'u dylanwad, a hwythau'n gyfranddalwyr, ac ar yr un pryd â hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol a safonau cadarn o ran trefnau llywodraethu corfforaethol o blith y cwmnïau sy'n destun y buddsoddiadau.

9. Manteisio ar hawliau pleidleisio sy'n ymwneud â'r buddsoddiadau.

Caiff buddiannau buddsoddi hirdymor eu gwella gan y safonau llywodraethu corfforaethol a'r cyfrifoldebau corfforaethol uchaf. Gall llywodraethu gwael effeithio'n negyddol ar werth cyfranddaliwr.

Mae'r Gronfa yma'n cydnabod pwysigrwydd stiwardiaeth ac ymgysylltu trwy reolwyr y gronfa ecwiti wrth ddylanwadu'n gadarnhaol ar gwmnïau.

Y disgwyl yw y bydd holl reolwyr buddsoddi ecwiti gweithredol y Gronfa yn arfer eu hawliau pleidleisio i hyrwyddo llywodraethu corfforaethol da a chyfrifoldeb cymdeithasol ac amgylcheddol.

Mae'r Gronfa wedi cytuno ar batrwm pleidleisio sy'n cynnwys canllawiau ar arfer dda ynghylch trefnau llywodraethu. Mae asiantaeth bleidleisio annibynnol yn cael ei gyflogi i fonitro a chymharu cofnodion pleidleisio'r rheolwyr yn erbyn y templed yma.

10. Arweiniad Buddsoddi Da - Egwyddorion Myners.

Mae'r Gronfa yn asesu ac yn adolygu ei gydymffurfiaeth ei hun ag Egwyddorion Myners bob blwyddyn. Yn ôl ei hasesiad ei hun, mae'r Gronfa'n cydymffurfio'n llawn â'r egwyddorion isod:

Egwyddor 1. Gwneud Penderfyniadau Effeithiol

Egwyddor 2. Amcanion Clir

Egwyddor 3. Risg ac Ymrwymïadau

Egwyddor 4. Asesu cyflawniad

Egwyddor 5. Cyfrifoldeb o weinyddu

Egwyddor 6. Bod yn agored a threfnau adrodd

Datganiad Cydymffurfio ag Egwyddorion Myners

Egwyddor 1. Proses Effeithiol ar gyfer Gwneud Penderfyniadau

Dylai awdurdodau sy'n gweinyddu cronfeydd:

- Gwneir penderfyniadau gan bobl neu sefydliadau sydd â'r sgiliau, yr wybodaeth, y cyngor a'r adnoddau sy'n angenrheidiol i'w gwneud yn effeithiol a monitro eu gweithrediad; a
- Mae gan yr unigolion neu'r sefydliadau hynny ddigon o arbenigedd i allu gwerthuso a herio'r cyngor a gân nhw, a rheoli gwrthdaro buddiannau.

➡ Wedi cydymffurfio

Egwyddor 2. Amcanion Clir

Dylai amcan(ion) cyffredinol ar gyfer buddsoddiadau fod ar gael ar gyfer y gronfa sy'n rhoi ystyriaeth i rwymedigaethau'r cynllun a'r effaith bosibl ar drethdalwyr lleol, cadernid y cyfamad o ran cyflogwyr sy heb fod yn awdurdodau lleol, a'r ymagwedd tuag at risg o ran yr awdurdodau gweinyddu a chyflogwyr y cynllun. Dylai ymgynghorwyr a rheolwyr buddsoddiadau gael gwybod beth yw nhw.

➡ Wedi cydymffurfio

Egwyddor 3. Risg a rhwymedigaethau

Wrth osod ac adolygu eu strategaeth fuddsoddi, dylai awdurdodau gweinyddu ystyried ffurf a strwythur rhwymedigaethau. Mae'r rhain yn cynnwys y goblygiadau i drethdalwyr lleol, cryfder y cyfamad i'r cyflogwyr sy'n cymryd rhan, y risg o'u diffyg a'u risg hirhoedledd.

➡ Wedi cydymffurfio

Egwyddor 4. Asesu cyflawniad

Dylai trefniadau fod ar waith ar gyfer mesur cyflawniad y buddsoddiadau, y rheolwyr buddsoddi a'r cynghorwyr yn ffurfiol. Dylai awdurdodau gweinyddol hefyd wneud asesiad ffurfiol o'u heffeithiolrwydd eu hunain fel corff gwneud penderfyniadau o bryd i'w gilydd ac adrodd ar hyn i aelodau'r cynllun.

➡ Wedi cydymffurfio

Egwyddor 5. Perchnogaeth gyfrifol Dylai awdurdodau gweinyddu:

- mabwysiadu, neu sicrhau bod eu rheolwyr buddsoddiadau'n mabwysiadu, Institutional Shareholders' Committee Statement of Principles ar fater cyfrifoldebau cyfranddalwyr ac asiantiaid
- cynnwys datganiad o'u polisi yn ymwneud â chyfrifoldeb o weinyddu yn rhan o'r datganiad ynghylch egwyddorion buddsoddi
- rhoi gwybod i aelodau o'r Cynllun o dro-i-dro ynglŷn ag arfer y cyfrifoldebau hynny.

➡ Wedi cydymffurfio

Egwyddor 6. Tryloywder ac adrodd Dylai awdurdodau gweinyddu:

- Bod yn hollol agored, cyfathrebu â rhanddeiliaid ar faterion sy'n ymwneud â rheoli buddsoddiadau, y trefnau llywodraethu a gweinyddu a'r risgiau, gan gynnwys cyflawniad yn erbyn amcanion sydd wedi'u nodi.
- Cyfathrebu'n rheolaidd ag aelodau'r cynllun ar y ffurf sydd fwyaf priodol yn eu barn nhw.

➡ Wedi cydymffurfio

■ Vanessa Thomas

Cyfrifydd y Trysorlys a'r Gronfa Bensiwn



Adroddiad ar y Cyfrifon



Cyfrif y Gronfa

2017/18		2018/19	
£'000		£'000	£'000
	Llywodraeth		
(93,945)	Cyfraniadau gan y Cyflogwyr	(98,732)	
(26,052)	Cyfraniadau gan yr Aelodau	(26,779)	
(119,997)			(125,511)
	Trosglwyddiadau a dderbyniwyd gan gronfeydd pensiwn eraill		
(17,545)	Trosglwyddiadau grŵp a dderbyniwyd gan gronfeydd pensiwn eraill	(3,433)	
(4,246)	Trosglwyddiadau unigol allan i gronfeydd pensiynau eraill	(1,872)	
			(5,305)
(2,960)	Incwm arall	(5,141)	
			(5,141)
(144,748)			(135,957)
	Buddion		
100,162	Yr Adran Bensiynau	105,653	
16,736	Cymudiad o bensiynau a chyfandaliadau adeg ymddeol	20,068	
2,846	Buddion Cyfandaliadau marwolaeth	2,972	
119,744			128,693
	Taliadau i weithwyr a adawodd		
221	Ad-daliadau i weithwyr a adawodd	305	
37	Taliadau i aelodau yn ymuno â chynllun neu gronfa'r wladwriaeth	9	
1,088	Trosglwyddiadau grŵp i gynlluniau eraill	5,168	
6,680	Trosglwyddiadau unigol i gynlluniau eraill	9,111	
8,026			14,593
127,770			143,286
(16,978)	Ychwanegiadau Net / Alldyniadau Net o ganlyniad i ymdrin ag aelodau	7,329	
			7,329
10,779	Treuliau rheoli	11,039	
			11,039
(6,199)	Ychwanegiadau Net / Alldyniadau Net yn cynnwys Treuliau Rheoli'r Gronfa		18,368
	Incwm Buddsoddiadau		
(36,566)	Difidend soddgyfrannau	(34,687)	
(20,128)	Incwm o fondiau	(24,111)	
(2,944)	Incwm o gronfeydd buddsoddi	(2,168)	
(6,541)	Incwm o gronfeydd buddsoddi (eiddo)	(5,942)	
(41)	Llog ar adneuon arian parod	(160)	
(66,220)			(67,068)
(135,030)	(Elw) a cholledion gwerthu buddsoddiadau a newidiadau yng ngwerth buddsoddiadau	(204,694)	
			(204,694)
886	Trethi ar Incwm	853	
			853

2017/18		2018/19	
£'000		£'000	£'000
(200,364)	Enillion Net ar Fuddsoddiadau		(270,909)
(206,563)	Gwir enillion/gostyngiad yn y Gronfa ar y flwyddyn		(252,541)
(2,999,531)	Asedau Net Agoriadol		(3,206,094)
(3,206,094)	Asedau Net wrth Gau		(3,458,635)

Datganiad o'r Asedau Net

31/03/18		31/03/19	
£'000		£'000	£'000
	Asedau Buddsoddi		
1,973,190	Soddgyfrannau	676,076	
581,747	Bondiau	843,928	
117,649	Cronfeydd buddsoddi - Cwmnïau Buddsoddi Penagored	273,082	
276,219	Cronfeydd buddsoddi - Cronfeydd â chyfyngiadau	1,363,745	
167,831	Cronfeydd buddsoddi - Eiddo	260,851	
3,116,636			3,417,682
80,192	Adneuon Arian parod		29,911
	Balansau buddsoddi eraill		
6,331	Llog Cronedig	7,229	
7,093	Dyledwyr buddsoddi	6,323	
1,871	Treth mae modd Adennill	1,887	
15,295			15,439
3,212,123			3,463,032
	Rhwymedigaethau		
(8,498)	Credydwyr buddsoddi		(3,991)
0	Contractau deilliadol		(2,397)
3,203,625	Asedau Buddsoddi Net		3,456,644
	Asedau Cyfredol		
5,750	Cyfrandaliadau sy'n ddyledus oddi wrth gyflogwyr a gweithwyr	6,116	
479	Asedau eraill	458	
6,229			6,574
	Rhwymedigaethau Cyfredol		
(3,760)	Rhwymedigaethau Cyfredol		(4,583)
3,206,094	Cyfanswm yr asedau sydd ar gael ar ddiwedd y cyfnod		3,458,635

Mae'r cyfrifon yma'n crynhoi trafodion y cynllun ac yn cynnwys y gwir asedau hynny sydd at ddefnydd yr ymddiriedolwyr. Dydy'r cyfrifon yma ddim yn cymryd i ystyriaeth ymrwymadau talu pensïynau a buddion sy'n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn. Mae crynodeb o sefyllfa actiwaraidd y cynllun, sy'n rhoi ystyriaeth i'r ymrwymadau yma, wedi'i gynnwys yn Adroddiad yr Actiwari. Fe ddylech chi ddarllen y cyfrifon yma ar y cyd â'r adroddiad hwnnw.

Nodiadau ar Gyfrifon Cronfa Bensiwn

Cyflwyniad

Rydyn ni wedi paratoi'r cyfrifon yma yn unol â gofynion y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol (CIPFA) 2018/19 sy'n seiliedig ar safonau IFRS ar gyfer y sector cyhoeddus yn y DU. Mae Adroddiad Cronfa Bensiwn mwy manwl ar gael ar gais oddi wrth Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol.

Polisiâu Cyfrifon Arwyddocaol

Croniadau Gwariant ac Incwm

Mae'r cysyniad cronïadau yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dosbarthau materol incwm a gwariant, ac eithrio gwerthoedd trosglwyddo ag arian. Caiff y rhain eu cyfrif yn ystod blwyddyn lle daw'r dyddiad trosglwyddo i rym, neu yn ystod flwyddyn lle mae'r actiwari yn prisio'r trosglwyddiad os yw'r hwyrach na hynny. Rhoddir cyfrif am werthoedd trosglwyddo ar sail arian parod, ac eithrio trosglwyddiadau grŵp materol, y rhoddir cyfrif amdany'n nhw yn ystod blwyddyn y dyddiad trosglwyddo neu'r flwyddyn y mae'r actiwari yn prisio'r trosglwyddiad, os yw'n hwyrach.

Prisio Buddsoddiadau Offerynnau Ariannol

O ran "Gwerth Teg", mae gan bob buddsoddiad brisiau wedi'u dyfynnu mewn marchnadoedd gweithredol, ac eithrio Cyfryngau Buddsoddi Cyfun a reolir gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru a Chronfeydd Eiddo Cyfun.

Mae gwariannau rhestredig wedi'u prisio yn ôl IAS 39, gan ddefnyddio prisiau canol y farchnad o Farchnadoedd Stoc cydnabyddedig ar 31 Mawrth 2019.

Mae gwarantau llog sefydlog wedi'u prisio'n "lân", ac eithrio llog cronedig. Mae prisiau Sterling mewn perthynas â gwariannau sy'n cael eu henwi mewn arian tramor wedi'u seilio ar gyfraddau cyfnewid ar 31 Mawrth 2019.

Mae Cyfryngau Buddsoddi Cyfun a reolir gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru yn cael eu prisio gan ddefnyddio gwerthoedd asedau net a ddarperir gan Link, gweithredwr Partneriaeth Pensiwn Cymru. Adroddir am rhain ar y pris sengl sy'n cau.

Mae cronfeydd o fuddsoddiadau eiddo yn cael eu prisio drwy dechnegau prisio dibynadwy i bennu 'Gwerth Teg'. Mae pris buddsoddiadau mewn eiddo yn seiliedig ar brisiau annibynnol proffesiynol. Does dim angen dyfarniadau na thybïaethau sylweddol ar unrhyw ased er mwyn pennu 'Gwerth Teg'.

Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVCs)

Mae modd i aelodau o'r cynllun ddewis rhoi cyfraniadau ychwanegol tuag at eu pensiwn o'u cyflogau. Yn unol â rheol 5(2)(b), Rheoliadau Cronfa Bensiwn (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016, rydyn ni heb gynnwys Cyfraniadau Ychwanegol Gwirfoddol yn rhan o'r cyfrifon.

£1,230k (£1,245k yn 2017/18) oedd cyfanswm Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVCs) yn ystod y flwyddyn. Gwerth ar y farchnad y Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVCs) sy'n cael eu buddsoddi ar wahân ar ddyddiad y fantolen oedd £8,169k (£7,604k yn 2017/18). Mae dau ddarparwr AVC.

Costau Prynu a Gwerthu

Mae costau trafodion buddsoddiadau wedi'u cynnwys yn rhan o gostau o brynu neu wedi'u cynnwys yn rhan o wir elw/colledion gwerthiannau, yn unol â'r hyn sy'n addas. Mae costau trafodion yn cynnwys ffioedd, comisiynu a dyletswyddau. Gwerthu costau trafodion yn 2018/19 oedd £1.74 miliwn (£0.7 miliwn yn 2017/18).

Yn ogystal â'r costau uniongyrchol sy wedi'u nodi uchod, mae costau anuniongyrchol sy'n codi trwy gynnig pris ar fuddsoddiadau sy'n rhan o gronfeydd buddsoddi yn gwmwys. Dydy'r cynllun ddim yn cael gwybodaeth am gostau anuniongyrchol ar wahân.

Trethu

Ac yntau'n gynllun gwasanaeth cyhoeddus cofrestredig, mae'r Gronfa Bensiwn wedi'i heithrio rhag talu treth incwm a threth ar enillion cyfalaf gwledydd Prydain.

Ac eithrio'r achosion hynny lle bod caniatâd rhag talu treth wedi'i roi, mae incwm mewn gwledydd tramor yn ostyngedig i dreth sy'n cael ei chadw'n ôl yn y wlad mae'n deillio ohoni.

Rydyn ni'n cyfri'r dreth does dim modd ei hadennill yn wariant yng Nghyfrif y Gronfa, a chaiff unrhyw dreth y mae modd ei hadennill ei dangos fel Ased yn y Datganiad o'r Gwir Asedau.

Mae ymrwymiad bychan o ran treth incwm ar ad-daliadau cyfraniadau a phensiynau cyfwerth (pensiynau bach wedi'u trosi i gyfandaliadau). Mae'r taliadau yma'n cael eu talu i adran Cyllid a Thollau ei Mawrhydi bob 3 mis.

Mae modd adennill TAW ar holl weithgareddau, felly mae'r cyfrifon wedi'u cyflwyno heb gynnwys TAW.

Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Cyfrifon Cronfa Bensiwn

Cyfrifoldebau Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Mae'n ofynnol i'r Cyngor wneud y canlynol:

- Gwneud trefniadau ar gyfer gweinyddu materion ariannol y Gronfa Bensiwn yn briodol ac i sicrhau bod un o'i Swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol yw'r swyddog yma yn y Cyngor.
- Rheoli ei faterion i sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a diogelu ei asedau.
- Cymeradwyo Cyfrifon y Gronfa Bensiwn.

Rwy'n cadarnhau bod y cyfrifon yma wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor ar:

Llofnod

Se P. J. Hill

Dyddiad

31.7.2019

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol

Mae'r Cyfarwyddwr yn gyfrifol am baratoi Cyfrifon y Gronfa Bensiwn. O ran Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig, mae'n ofynnol iddo gyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Gronfa Bensiwn ar ddyddiad y cyfrifyddu a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn.

Wrth baratoi Cyfrifon y Gronfa Bensiwn, mae'r Cyfarwyddwr wedi:

- Dewis polisiau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson.
- Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol ac yn ddarbodus.
- Cydymffurfio â'r cod.

Mae'r Cyfarwyddwr hefyd trwy gydol y flwyddyn ariannol wedi:

- Cynnal a chadw cofnodion cyfrifyddu priodol, a'u diweddarau'n gyson.
- Cymryd camau rhesymol i atal twyll a mathau eraill o afreoleidd-dra, neu eu darganfod.

Tystysgrif Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol ar Gyfrifon Cronfa Bensiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer y flwyddyn 2018/19

Rwy'n tystio fod y cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf ar 31 Mawrth 2019 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn.

Barrie Davies

Barrie Davies

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol



Cyfraniadau

Cyfraniadau'r Cyflogwyr

Mae cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr yn cael eu pennu gan actiwari'r Gronfa er mwyn cynnal y gronfa mewn cyflwr diddyledrwydd, gan ystyried ymrwymïadau presennol a darpar ymrwymïadau. Gwneir prisiadau o asedau ac ymrwymïadau'r Gronfa at y diben yma bob tair blynedd. Cafodd y prisiad diwethaf ei gynnal ar 31 Mawrth 2016, gyda'r canlyniadau yn dod i rym o 1 Ebrill 2017.

Cyfraniadau'r Gweithwyr

Mae graddfeydd cyfrannu gweithwyr bellach mewn haenau. Bydd y rhai, felly, sy'n ennill mwy o incwm yn rhoi cyfran uwch o'u cyflog i'r cynllun. Dyma'r bandiau ar gyfer blwyddyn 2018/19:

Cyflog Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE)	Cyfradd cyfraniadau
Hyd at £14,100	5.5%
Dros £14,101, hyd at £22,000	5.8%
Dros £22,001, hyd at £35,700	6.5%
Dros £35,701, hyd at £45,200	6.8%
Dros £45,201, hyd at £63,100	8.5%
Dros £63,101, hyd at £89,400	9.9%
Dros £89,401, hyd at £105,200	10.5%
Dros £105,201, hyd at £157,800	11.4%
Dros £157,801	12.5%

O 1 Ebrill 2014, mae dewis 50/50 yn caniatáu i aelodau dalu hanner y cyfraniadau a ddangosir uchod, a chronni pensiwn sydd hanner y raddfa arferol.



Cyfraniadau i'w Derbynn a Buddion i'w Talu

Mae'r tabl isod yn nodi'r cyfraniadau a dderbyniwyd a'r buddion a dalwyd:

	Cyfraniadau'r Gweithwyr		Cyfraniadau'r Cyflogwyr		Pensiynau, Cyfandaliadau a Buddion Marwolaeth	
	2017/18 £'000	2018/19 £'000	2017/18 £'000	2018/19 £'000	2017/18 £'000	2018/19 £'000
Math o Gorff						
Gweinyddu	8,197	8,480	33,402	35,181	31,034	35,904
Wedi'i ganiatáu	3,442	3,518	13,907	15,078	13,776	13,706
Wedi'i amserlennu	14,413	14,781	46,636	48,473	74,934	79,083
Cyfanswm	26,052	26,779	93,945	98,732	119,744	128,693

Mae cyfraniadau cyflogwyr yn cynnwys £9,790k o gyfraniadau ariannu diffyg (£9,649k yn 2017/18). Does dim cyfraniadau estynedig.

Cyfraniadau a dderbyniwyd gan Gyflogwyr

	Cyfraniadau'r Gyflogwyr (£)	Cyfraniadau'r Gweithwyr (£)
Agored Cymru	22,473.68	5,092.45
Amgen Cymru (Cynon)	184,222.79	76,613.88
Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen	291,535.61	103,636.51
Cyngor Cymuned Bedlinog	249.53	70.75
Cyngor Cymuned Brackla	8,530.20	2,812.01
Coleg Pen-y-bont ar Ogwr	1,181,585.14	396,290.81
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	15,540,768.65	4,450,783.16
Capita Glamorgan Consultancy	0.00	38,694.43
Gyrfa Cymru	1,004,342.63	146,534.96
Cymdeithas Gyrfa Cymru	19,436.94	5,903.78
Consortiwm Canolbarth y De	367,047.43	267,888.53
Prif Gwnstabl De Cymru	11,519,406.96	4,076,860.04
Cyngor Cymuned Coety Uchaf	2,125.57	602.74
Coleg y Cymoedd	1,514,420.40	485,744.78
Amlogfa Llangrallo	46,937.77	13,384.88
DBW FM Ltd	520,714.92	171,545.18
Banc Datblygu Cymru Plc	204,646.73	46,811.17
Drive Ltd	32,877.18	11,992.97
Cyngor Cymuned Cwm Garw	6,196.95	1,290.61
Cyngor Cymuned Gelligaer	3,613.44	1,108.92
Halo Leisure Services Ltd	44,970.19	66,385.72
Cyngor Cymuned Hirwaun a Phenderyn	6,245.99	2,293.89
KGB Cleaning Ltd	3,353.39	747.60
Cyngor Cymuned Llanharan	2,315.77	656.55
Cyngor Cymuned Llantrisant	17,840.10	4,679.40
Cyngor Cymuned Llanilltud Faerdref	13,681.74	3,208.73
Amlogfa Llwydcoed	27,365.34	7,065.44
Uned Ddata Llywodraeth Leol	68,822.88	56,663.61
Cyngor Tref Maes-teg	7,581.07	2,274.54
Coleg Merthyr Tudful	409,577.86	137,208.60
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	9,303,739.07	2,030,145.82
Sefydliad i'r Deillion Merthyr Tudful	28,995.99	5,774.14
Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful	195,565.61	89,257.05
Cartrefi Cymoedd Merthyr	435,351.17	346,933.16
Comisiynydd Heddlu a Throseddau	166,646.85	79,099.07
Cyngor Cymuned Pont-y-clun	13,637.38	3,759.52
Cyngor Tref Pontypridd	83,763.27	19,070.32
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	35,180,832.42	8,480,283.17
Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru	436,706.88	163,517.50
Gofal Cymdeithasol Cymru	980,700.68	245,180.83
Awdurdod Tân De Cymru	1,593,261.61	533,212.72
Tribiwnlys Prisio De Cymru	31,852.45	8,350.00
Cyngor Cymuned Llansanffraid ar Ogwr	1,720.64	487.69
Cyngor Cymuned Tonyrefail	28,223.63	7,974.53
Trivallis	1,597,647.27	766,541.46
Prifysgol De Cymru	5,964,642.96	2,007,564.60
Tai Cymoedd i'r Arfordir	373,058.86	138,694.94
Llywodraeth Cymru	6,239,348.19	643,516.18
CBAC	3,004,528.36	623,742.36
Cyngor Cymuned Ynysawdre	2,041.08	578.61
Cyfanswm	98,735,151.22	26,778,530.31

Cafodd dros 99.77% o gyfraniadau ariannol eu derbyn mewn da bryd. Cafodd cyfraniadau eu derbyn yn hwyr 19 o weithiau. Rydyn ni'n monitro cyfraniadau a gaiff eu derbyn bob mis, ac rydyn ni'n cysylltu â chyflogwyr os nad ydyn nhw'n cwrdd â therfynau amser.

Treuliau Rheoli'r Buddsoddiadau

Dyma dreuliau rheolwyr y Gronfa a wynebodd y Gronfa Bensiwn yn 2018/19:

	2017/18 £'000	2018/19 £'000
Costau Gweinyddu	1,828	1,839
Treuliau Rheoli'r Buddsoddiadau	8,642	8,973
Costau Goruchwyllo a Llywodraethu	309	227
Cyfanswm	10,779	11,039

Mae hyn yn cyfateb i 0.26% (0.27% yn 2017/18) o werth y Gronfa Bensiwn ar 31 Mawrth 2019.

Mae Ffioedd Archwilio 2018/19 o £39k wedi'u cynnwys mewn Costau Goruchwyllo a Llywodraethu (£39k yn 2017/18).

Llywodraethu (£39k yn 2017/18). Dyma dreuliau rheoli'r buddsoddiadau a wynebodd y Gronfa yn 2018/19:

	2017/18 £'000	2018/19 £'000
Treuliau Rheolwyr	6,265	6,843
Ffioedd yn ymwneud â chyflawniad	1,452	0
Ffioedd Ceidwaid	201	390
Costau Trafodion	724	1,740
Cyfanswm	8,642	8,973

Yn ychwanegol at y costau yma, eir i gostau anuniongyrchol. Adlewyrchir y rhain yng ngwerth ased net (NAV) yr unedau cyfun. Cyfanswm y costau trosglwyddo o symud y rheolwyr soddgyfrannau alpha uchel ar wahân i Bartneriaeth Pensiwn Cymru yn ystod mis Ionawr 2019 oedd £5,443k, a adlewyrchir yn y gwerth ased net.

Yn gynwysedig yn y treuliau rheoli uchod, mae cost cyfranogiad y Gronfa yn nhrefniant cronni buddsoddiad ar y cyd Partneriaeth Pensiwn Cymru, fel y nodir isod:

	2017/18 £'000	2018/19 £'000
Costau Goruchwyllo a Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru		
Costau Sefydlu	78	33
Costau Awdurdod Lletyol	0	20
Treuliau Rheoli Buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru		
Ffioedd Rheolwr Cronfa	0	733
Ffioedd Ceidwaid	0	114
Cyfanswm	78	900

Trafodion gyda Phartïon Cysylltiedig

Yng nghwrs cyflawni'i swyddogaethau yn awdurdod gweinyddu, mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn rhoi gwasanaethau i'r Gronfa. Cododd y Cyngor ffioedd o £1.5 miliwn (£1.6 miliwn yn 2017/18) am hynny. Mae'r costau yma'n ymwneud yn bennaf â'r staff hynny a gyflogir i sicrhau bod y gwasanaeth pensiwn yn cael ei ddarparu.

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd cyfraniadau a oedd yn ddyledus oddi wrth Gyrff Cyflogwyr gwerth £6.1 miliwn (£5.8 miliwn yn 2017/18). Roedd £4.7 miliwn yn gyfraniadau cyflogwyr, a £1.4 miliwn yn gyfraniadau gweithwyr.

Mae rhai aelodau o Banel Gweinyddu a Buddsoddi'r Gronfa Bensiwn, Bwrdd y Gronfa Bensiwn a Phwyllgor y Gronfa Bensiwn hefyd yn aelodau o Gronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf.

Mae gweinyddu Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf yn swyddogaeth i'r Cyngor llawn, gyda chyfrifoldeb am benderfyniadau cyffredinol yn cael ei ddirprwyo i Gyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen hyd at 10 Mawrth 2019, ac o 11 Mawrth 2019, i Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol. Yn hyn o beth, mae'n ofynnol i ddeiliaid y swyddi ddatgan unrhyw fuddiannau gyda phartïon cysylltiedig. Gellir gweld y datgeliad yn Natganiad Cyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Mae'n ofynnol i Aelodau'r Pwyllgor ac Uwch Swyddogion sy'n cynghori'r Pwyllgor ddatgan eu buddiant ym mhob cyfarfod.

Mae modd dod o hyd i daliadau Aelodau a Swyddogion yn Natganiad Cyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Ymrwymïadau Amodol

Mae ymrwymïadau wrth gefn gwerth £836k (£555k yn 2017/18) ar gyfer cyfraniadau y mae modd eu had-dalu i weithwyr sydd wedi gadael ac sydd heb hawlio ad-daliadau.

Trosglwyddiadau Grŵp

Trosglwyddodd y Gronfa £5.2 miliwn i Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg mewn perthynas â chydweithio rheoliadol rhanbarthol.



Barn yr Archwilydd

Adroddiad archwilio annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf ar yr Adroddiad Blynnyddol

Rydwi i wedi archwilio cyfrifon y gronfa pensiwn a'r nodiadau cysylltiedig sydd wedi'u cynnwys yn Adroddiad Blynnyddol 31 Mawrth 2019 Cronfa Bensiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf er mwyn cadarnhau a ydyn nhw'n gyson â chyfrifon y gronfa pensiwn a'r nodiadau cysylltiedig sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Cyfrifon a gafodd ei baratoi gan Gronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 a awdurdodwyd i'w cyhoeddi ar 31 Gorffennaf 2019. Mae cyfrifon y gronfa pensiwn yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Gwir Asedau.

Barn

Yn fy marn i, mae cyfrifon y gronfa pensiwn a'r nodiadau perthynol sydd wedi'u cynnwys yn Adroddiad Blynnyddol Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf yn gyson â chyfrifon y gronfa pensiwn a'r nodiadau perthynol hynny sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Cyfrifon a baratodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2019. Cafodd y dogfennau yma'u cymeradwyo ar gyfer eu cyhoeddi ar 31 Gorffennaf 2019 y cyflwynais i farn ddiamedd arnyn nhw.

Dydwi i ddim wedi rhoi ystyriaeth i effeithiau unrhyw drafodion a wnaethpwyd rhwng y dyddiad y cyflwynais i fy marn arno ar gyfrifon y gronfa pensiwn sydd wedi'i chynnwys yn Adroddiad Cyfrifon y gronfa pensiwn, 31 Gorffennaf 2019 a dyddiad y datganiad yma.

Priod gyfrifoldebau'r Awdurdod sy'n Gweinyddu ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Yr Awdurdod sy'n Gweinyddu, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynnyddol. Fy nghyfrifoldeb i ydy adrodd a yw cyfrifon y gronfa pensiwn a'r nodiadau perthynol sy wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Blynnyddol yn gyson â chyfrifon y gronfa pensiwn a'r nodiadau perthynol sydd wedi'u cynnwys yn Adroddiad Cyfrifon y Gronfa Bensiwn. Yn ogystal â hynny, darllenais i'r wybodaeth ategol sydd i'w chael yn yr Adroddiad Blynnyddol, gan roi ystyriaeth i'r goblygiadau ar gyfer fy adroddiad innau pe bawn i'n dod ar draws unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau o ran cyfrifon y gronfa pensiwn. Mae'r wybodaeth ategol yma'n cynnwys Rhagair y Cadeirydd, Cyflwyniad, Crynodeb, Adroddiad ar Faterion Gweinyddu, Adroddiad ar Faterion Buddsoddiadau, Adroddiad yr Actiwari, Adroddiad ar Faterion Cyfathrebu a Threfnau Llywodraethu Pensiynau.



Anthony J Barrett
Ar ran Archwilydd
Cyffredinol Cymru
12 Tachwedd 2019

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Adroddiad yr Actiwari



Cyflwyniad

Mae Rheoliadau'r Cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i brisiad actiwaraid llawn gael ei gynnal bob trydedd flwyddyn. Diben y prisiad ydy cadarnhau bod Cronfa Bensiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Gronfa) yn bodloni gofynion eu hymrwymadau i gyfranwyr presennol a chyfranwyr y gorffennol ac adolygu graddfeydd cyfrannu'r cyflogwyr. Cynhaliodd Aon yr ymchwiliad actiwari llawn diwethaf ar 31 Mawrth 2016, yn unol â Rheoliad 62 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013.

Sefyllfa Actiwaraid

1. Roedd y prisiad ar 31 Mawrth 2016 yn dangos bod cymhareb cyllido'r Gronfa wedi cynyddu ers y prisiad diwethaf gydag asedau (gwerth yr adeg honno o £2,485.4 miliwn ar y farchnad) sy'n bodloni 81% o'r ymrwymadau, ac felly, yn achos y cyfranwyr cyn 1 Ebrill 2014, yn caniatáu cynnydd yn nhaliadau pensiwn yn y dyfodol.
 2. Roedd y prisiad hefyd yn dangos bod eisiau i gyfraddau cyfraniadau cyflogwyr sy'n rhan o'r cynllun (gyda'i gilydd) i'r Gronfa ar 1 Ebrill 2017 fod fel a ganlyn:
 - 17.1% o gyflog pensiynadwy. Dyma'r gyfradd sy'n cael ei ystyried i fod yn ddigonol, ynghyd â chyfraniadau'r aelodau, i fodloni ymrwymadau'r gwasanaeth ar ôl dyddiad y prisiad (y gyfradd sylfaenol)
- Gan ychwanegu
- Symiau ariannol i adfer yr asedau i fodloni 100% o'r ymrwymadau cyn dyddiad y prisiad, dros gyfnod o 22 blynedd o 1 Ebrill 2017 (y gyfradd eilaidd), cyfwerth â 7.2% o'r tâl pensiynadwy (neu £30.3 miliwn yn 2017/18 a chynyddu 3.25% y flwyddyn ar ôl hynny).

3. Yn ymarferol, byddai sefyllfa pob cyflogwr unigol yn cael ei asesu ar wahân ac mae'r cyfraniadau wedi'u pennu yn adroddiad Aon dyddiedig 31 Mawrth 2017 ("adroddiad prisiad yr actiwari"). Yn ogystal â'r gyfradd gyfrannu a nodwyd, bydd cyflogwyr yn gwneud taliadau i dalu ymrwymadau ychwanegol sy'n codi'n achos ymddeol yn gynnar (ac eithrio ymddeoliadau yn sgil salwch) i'r Gronfa.
4. Cafodd y cynllun ariannu ar gyfer asesu cyfraniadau cyflogwyr ei fabwysiadu'n unol â'r Datganiad o Strategaeth Ariannu. Mae ffyrdd gwahanol o fynd ati ar gyfer cyflwyno cynnydd mewn cyfraniadau a chyfnodau adfer cyflogwyr unigol wedi'u pennu'n adroddiad prisiad yr actiwari.
5. Ar gyfer y rhan fwyaf o gyflogwyr, cafodd cyfraddau cyfraniadau'u cyfrifo gan ddefnyddio dull amcanestyniad uned actiwaraid ac roedd prif dybiaethau'r actiwari a'u defnyddiwyd i asesu targedau ariannu a chyfraddau cyfrannu fel a ganlyn.

Graddfa disgownt am gyfnodau yn gwasanaethu	
Targed cyllid - Corff sy wedi'i restru	4.50% p.a.
Targed cyllid - Trosiannol	4.10% p.a.
Targed cyllid - Corff amddifad	4.10% p.a.
Ymrwymadau Amddifad	2.10% p.a.
Graddfa disgownt am gyfnodau wedi gadael gwasanaeth	
Targed cyllid - Corff sy wedi'i restru	4.50% p.a.
Targed cyllid - Trosiannol	4.10% p.a.
Targed cyllid - Corff amddifad	2.50% p.a.
Ymrwymadau Amddifad	2.10% p.a.
Graddfa cynnydd cyflog	3.25% p.a.
Graddfa'r cynnydd mewn cyfrifon pensiynau	2.00% p.a.
Graddfa'r cynnydd ynghylch pensiynau sy'n cael eu talu (yn fwy nag Isafswm Pensiwn Gwarantiedig)	2.00% p.a.

Cafodd yr asedau eu prisio yn unol â gwerth y farchnad. Mae rhagor o fanylion am y rhagdybiaethau hynny a'u mabwysiadwyd ar gyfer y prisiad wedi'u pennu'n adroddiad prisiad yr actiwari.

6. Mae canlyniadau'r prisiad (mae crynodeb ohonyn nhw i'w cael uchod) wedi'u seilio ar y sefyllfa ariannol a phrisiau ar y farchnad fel yr oedden nhw ar ddyddiad y prisiad, 31 Mawrth 2016. Ac felly, dydy'r canlyniadau ddim yn rhoi ystyriaeth i unrhyw newidiadau sy wedi codi ar ôl dyddiad y prisiad.

7. Cafodd adroddiad prisiad ffurfiol yr Actiwari a'r dystysgrif Cyfraddau ac Addasiad sy'n nodi cyfraddau cyfraniad y cyflogwyr ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2017 tan 31 Mawrth 2020 eu cymeradwyo ar 31 Mawrth 2017. Ar wahân i'r rheiny sy'n cael eu caniatáu (neu sy'n ofynnol) gan y Rheoliadau, bydd cyfraddau cyfraniadau yn cael eu hadolygu ar adeg prisiad actiwaraidd nesaf y Gronfa ar 31 Mawrth 2019 yn unol â Rheoliad 62 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013.

8. Ers y dyddiad y llofnodwyd yr adroddiad prisio, bu nifer o ddatblygiadau mewn perthynas â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol:

- **Cynnydd i Isafsymiau Gwarantedig Pensiynau:**

Ers dyddiad llofnodi'r adroddiad prisio, mae Trysorlys EM, wrth ymateb i'r ymgynghoriad ar fynegeio a chydraddoli Isafsymiau Gwarantedig Pensiynau mewn cynlluniau sector cyhoeddus, wedi cyhoeddi ei fod am ymestyn mynegeio Isafsymiau Gwarantedig Pensiynau i'r rheiny sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu cyn 5 Ebrill 2021 (5 Rhagfyr 2018 gynt). Chafodd yr estyniad yma mo'i ganiatáu yn y canlyniadau prisiad oherwydd cafodd yr adroddiad prisio actiwaraidd ei lofnodi cyn y cyhoeddiad yma, ond ni ddisgwylir i'r cynnydd mewn ymrwymiad fod yn berthnasol. Yn ogystal, ar 26 Hydref 2018 dyfarnodd yr Uchel Lys yn achos Grŵp Bancio Lloyds bod angen cynlluniau i gydraddoli budd aelodau gwrywaidd a benywaidd er mwyn atal Isafsymiau Gwarantedig Pensiynau anghyfartal. Ein dealltwriaeth ni yw na fydd hyn yn newid dull Trysorlys EM tuag at gydraddoli Isafsymiau Gwarantedig Pensiynau yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

- **Y Broses Rheoli Costau a dyfarniad McCloud:**

Mae deddfwriaeth yn gofyn bod Trysorlys Ei Mawrhydi a Bwrdd Cynghori'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cyflawni prisiadau cyfnodol er mwyn monitro cost y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ('LGPS') i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gynaliadwy a fforddiadwy. Roedd canlyniadau cychwynnol o broses Bwrdd Cynghori'r Cynllun yn dangos y byddai angen gwelliannau o ran buddion / gostyngiadau mewn cyfraniadau aelodau.

Serch hynny, mae'r broses rheoli costau wedi cael ei seibio yn dilyn dyfarniad y Llys Apêl fod y trefniadau trosiannol yng Nghynllun Pensiwn y Barnwyr (McCloud) a Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Sargeant) yn gwahaniaethu ar sail oedran; gallai'r achosion hyn fod â goblygiadau i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) (a allai gynyddu'r ymrwymadau o bosibl) a oedd hefyd â threfniadau trosiannol pan gyflwynwyd y cynllun newydd o Ebrill 2014 ymlaen.

9. Mae prisiad actiwaraidd y Gronfa ar 31 Mawrth 2019 ar y gweill ar hyn o bryd ac mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r adroddiad ffurfiol ar y prisiad a'r Dystysgrif Ardrethi ac Addasiadau sy'n nodi cyfraniadau cyflogwyr sy'n cychwyn o 1 Ebrill 2020 gael eu cymeradwyo erbyn 31 Mawrth 2020. Mae gwerthoedd asedau wedi cynyddu ers 2016, gan arwain at welliant yn y lefel ariannu oherwydd enillion buddsoddiad uwch na'r tybiedig. Bydd gwerthoedd ymrwymadau a chyfraniadau cyflogwyr, yn ogystal â chael eu heffeithio gan yr eitemau a restrir ym mharagraff 8 uchod, yn dibynnu ar ffactorau aelodaeth, newidiadau i ddisgwyliadau enillion yn y dyfodol a thybiaethau eraill (gan gynnwys lwfans ar gyfer newidiadau tybiaeth hirhoedledd diweddar) ac unrhyw newidiadau i'r strategaeth ariannu a wnaed yn rhan o brisiad 2019.

10. Actiwari'r gronfa, Aon, luniodd y datganiad hwn i'w gynnwys yng nghyfrifon y Gronfa. Mae'n rhoi crynodeb o ganlyniadau prisiad yr actiwari ar 31 Mawrth 2016. Mae'r prisiad yn rhoi cipolwg ar werth y gronfa adeg y prisiad ac yn cael ei ddefnyddio ar gyfer asesu cyfraddau'r cyfraniadau sydd eu hangen.

Darllenwch adroddiad ffurfiol y prisiad sy'n nodi manylion ynghylch y sefyllfa a'i gyfyngiadau yn llawn ochr yn ochr â'r datganiad yma.

11. Mae'r adroddiad prisiad actiwaraidd ar gael ar wefan y Gronfa:

<http://www.rctpensions.org.uk/CY/home.aspx>

Aon Hewitt Limited



Mehefin 2019



■ Catherine Black
Uwch Reolwr Carfan



Adroddiad ar Faterion Cyfathrebu



Cyfarfodydd Blynyddol

Cynhaliwyd ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol fis Tachwedd 2018. Roedd cynrychiolwyr ar ran cyflogwyr mwyaf y gronfa i gyd yn bresennol. Roedd y cyflwyniadau'n ymdrin â Diweddariadau Deddfwriaethol, Cyflawniad y Gronfa Bensiwn, Ansawdd Data gan y Rheoleiddiwr Pensiynau, a diweddariad Actiwaraid.

Desg gymorth

Mae'n desg gymorth ni yn dal i roi cymorth ynghylch ateb eich cwestiynau ar faterion pensiynau rhwng 9am a 5pm. Dydd Llun i Ddydd Gwener.

Ffoniwch y Ddesg Gymorth ar **01443 680 611**

Gwefan

Mae'r wefan wedi bod yn adnodd defnyddiol o ran cyfathrebu â'n haelodau. Mae'n cynnwys gwybodaeth i aelodau presennol ac aelodau posibl. Mae'n cynnwys gwybodaeth i aelodau presennol a blaenorol yn ogystal â phensiynwyr. Mae holl daflenni ffeithiau Cymru Gyfan, taflenni ffeithiau CLIL, ffurflenni a ddefnyddir yn aml a'n dogfennau llywodraethu wedi'u huwchlwytho i'r wefan, yn ogystal â chofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Pensiwn Lleol.

Mae tudalen Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol bwrpasol bellach ar y wefan. Mae'n cynnwys Datganiad Preifatrwydd y Cronfeydd a'r Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth. Mae'r holl ddogfennau am y gronfa pensiwn ar y wefan ac mae'n cael ei diweddarau'n gyson, pan gaiff newidiadau mewn deddfwriaeth eu rhoi ar waith.

Mae'r Ddesg Gymorth yn cyfeirio aelodau at y wefan yn rheolaidd i godi ffurflenni neu i gael gwybodaeth.

Mae adran benodol ar wefan RhCT, lle mae modd i weithwyr penodol fewngofnodi. Mae'r adran yma'n cynnwys yr holl ffurflenni a dogfennau perthnasol y mae eu hangen i weinyddu buddion aelodau, e.e. ffurflenni dechreuwyr newydd, ffurflenni terfynu ac ati
Ewch i: www.rctpensions.org.uk

Cyflwyniadau

Mae'r Garfan Materion Cyfathrebu'n barod iawn i drefnu seminarau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am y cynllun a buddion, neu i ddysgu gweithwyr am ofynion gweinyddu'r Cynllun.

Datganiadau Buddion Blynyddol

Yn unol â rheoliadau, mae'r Gronfa'n anfon datganiadau buddion blynyddol at aelodau ac aelodau gohiriedig. Cafodd datganiadau 2018/2019 eu cyflwyno o fewn y terfyn amser a nodwyd yn y rheoliadau gan gydymffurfio â Chanllawiau Bwrdd Cyngori'r Cynllun.

Ymweliadau â Chartrefi

Yn achos salwch difrifol, ac os yw'n briodol, bydd cynrychiolydd ar ran y Gwasanaeth Pensiynau yn dod i'ch gweld chi ar y cyd â chynrychiolydd o'r adran Adnoddau Dynol.

Trefnau Cyfathrebu Electronig

Mae Hunanwasanaeth Aelodau (Fy Mhensiwn Ar-lein) ar gael i holl aelodau gweithredol a gohiriedig a phensiynwr y Gronfa. Mae'r cyfleuster yn caniatáu i aelodau weld a newid rhai o'u manylion personol a gall aelodau gohiriedig a gweithredol redeg amcangyfrifon o fuddion pensiwn yn y dyfodol.

Byddwn ni'n parhau i annog aelodau i gyfathrebu â'r Adran Pensiynau yn electronig. Rydyn ni'n gweithio'n ddiflino i sicrhau bod y data a gaiff eu hanfon a'u derbyn yn ddiogel.

Mae'r Gronfa hefyd wedi cyflwyno system trosglwyddo data'n electronig sy'n caniatáu i ddata aelodau a gwybodaeth am gyflog gael eu huwchlwytho yn uniongyrchol i'n meddalwedd. Yn y dyfodol, bydd y cyfleuster yma ar gael i'r holl gyflogwyr.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014

Cafodd Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 eu cyflwyno gerbron Senedd San Steffan ar 19 Medi 2013. Mae'r Rheoliadau'n rhoi manylion am strwythuro Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o 1 Ebrill 2014.

- Mae'r buddion yn seiliedig ar Gyfartaledd Cyflog Gyrfa wedi'i Adbriso (CARE)
- Cyfradd groniadau 1/49
- Diffiniad cyflog pensiynadwy i gynnwys gwaith goramser nad yw'n rhan o contract
- Cyflwyno opsiwn 50/50 newydd lle caiff aelodau dalu llai o bensiwn am gyfnodau byr, a chronni hanner eu pensiwn arferol
- Y sawl sy'n ennill cyflogau uwch i gyfrannu mwy
- Oedran Pensiwn Arferol wedi'i gysylltu ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth

Bydd buddion aelodaeth o'r Cynllun cyn mis Ebrill 2014 yn cadw'r cyswllt cyflog terfynol, a bydd cyflog terfynol (yn seiliedig ar ddiffiniad cyflog pensiynadwy cyn mis Ebrill 2014) yn cael ei bennu pan fydd aelodau'n gadael y cynllun.

Mae gwefan Cronfa Bensiwn RCT yn cynnwys dolen i www.lgpsmember.org sydd wedi'i sefydlu a'i chynnal gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol. Ffynhonnell wybodaeth ganolog yw hi sy'n cynnwys amryw o gyfrifiannellau mae modd i aelodau eu defnyddio.

Mae'r Carfanau Cyfathrebu a Gweinyddu yn adolygu ein prosesau a'n gohebiaeth i sicrhau bod y Gronfa yn cydymffurfio â'r rheoliadau, bod y manylion a dderbyniwn gan gyflogwyr pan fydd aelodau'n ymuno neu'n gadael y gronfa yn cynnwys yr wybodaeth sydd ei hangen a bod ein haelodau'n deall yn llawn sut y cyfrifir eu buddion. Rydyn ni'n parhau i gyfathrebu â'n cyflogwyr sy'n cyfrannu er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i'r CPLIL ac unrhyw newidiadau technegol perthnasol eraill.

Cynnydd yng Nghostau Byw

Caiff pensiynau sy'n daladwy i aelodau sy'n ymddeol ar sail salwch ac i wŷr/gwragedd/plant aelodau, eu cynyddu'n flynyddol yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), o 30 Medi y flwyddyn flaenorol.

Mae pensiynau sy'n daladwy i aelodau eraill sy'n 55 oed neu'n hŷn hefyd yn elwa ar brawfesur chwyddiant blynyddol.

Mae dod i ben â threfnau contractio allan wedi arwain at newidiadau o ran pwy sy'n gyfrifol am gynyddu pensiwn sy'n cynnwys Isafswm Pensiwn Gwarantedig (yn ymwneud ag aelodaeth hyd at 5 Ebrill 1997). Cyn 2016, yr Adran Gwaith a Phensiynau a oedd yn darparu profion chwyddiant statudol (boed yn rhannol neu'n gyfan gwbl). O Ebrill 2016, mae'r Gronfa yn gyfrifol am y cynnydd pensiwn llawn ar unrhyw fuddion GMP i aelodau â fydd yn derbyn pensiwn y wladwriaeth cyn 5 Ebrill 2021.

Y cynnydd yn 2018/2019 oedd 2.4%.

Llywodraethu'r Gronfa Bensiwn

Rhaid i awdurdodau gweinyddu sicrhau bod trefniadau llywodraethu sydd ohoni yn cael eu cynnal a'u datblygu er mwyn helpu i ategu'r broses dod i benderfyniad.

Mae trefniadau llywodraethu ar gyfer Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf wedi'u crynhoi a'u hegluro mewn sawl dogfen allweddol sy'n ymwneud â stiwardiaeth effeithiol y Gronfa.

- Datganiad Cydymffurfio Llywodraethu cyffredinol sy'n nodi safle'r Gronfa yn erbyn safonau ymarfer gorau'r Llywodraeth.
- Datganiad Polisi Llywodraethu sy'n cynnig trosolwg o strwythur llywodraethu, proses dod i benderfyniad ac ymrwymadau cyflogwyr y cynllun.
- Rydyn ni'n ymrwymo i gynnig gwasanaeth cyfathrebu a gybodaeth cynhwysfawr i'r gweithwyr sy'n cymryd rhan ac aelodau o'r cynllun pensiynau. Bwriwch olwg ar ein Datganiad Polisi Cyfathrebu i ddarllen am y gwasanaethau.

